Dogfen ir Cyhoedd

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

Dr Gwynne Jones
Prif Weithredwr – Chief Executive
CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfeydd y Cyngor - Council Offices
LLANGEFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7TW

Ffôn / tel (01248) 752500
Ffacs / fax (01248) 750839

| RHYBUDD O GYFARFOD | | NOTICE OF MEETING |
|---|---|---|
| **PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL** | | **CORPORATE SCRUTINY COMMITTEE** |
| **DYDD LLUN 11 EBRILL 2016 am 2.30 o'r gloch** | | **MONDAY 11 APRIL 2016 at 2.30 pm** |
| **YSTAFELL BWYLLGOR 1 SWYDDFEYDD Y CYNGOR LLANGEFNI** | | **COMMITTEE ROOM 1 COUNCIL OFFICES LLANGEFNI** |
| **Swyddog Pwyllgor** | **Shirley Cooke 01248 752514** | **Committee Officer** |

**AELODAU / MEMBERS**
Cynghorwyr / Councillors:-

**ANNIBYNNOL GWREIDDIOL/ORIGINAL INDEPENDENT**

Jim Evans, Victor Hughes, G O Jones (Is-Gasdeirydd/Vice Chair), Raymond Jones

**PLAID CYMRU/THE PARTY OF WALES**

R.Meirion Jones (Cadeirydd/Chair), Lewis Davies, Ann Griffith a Llinos Medi Huws

**GRWP CHWYLDROAD/REVOLUTIONIST GROUP**

Sedd Wag / Vacant Seat

**HEB YMUNO/UNAFFILIATED**

R Ll Jones

**AELODAU CYFETHOLEDIG (GYDA PLEIDLAIS) PAN YN TRAFOD MATERIONYN YMWNEUD AG ADDYSG / CO-OPTED MEMBERS (WITH A RIGHT TO VOTE) WHEN DEALING WITH EDUCATIONAL MATTERS**

Mr Keith Roberts (Yr Eglwys Babyddol Rufeinig / The Roman Catholic Church) a
Parch./Rev. Robert Townsend (Yr Eglwys yng Nghymru / The Church in Wales)

# R H A G L E N

**1** **DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan unrhyw Aelod neu Swyddog mewn perthynas ag unrhyw eitem ar y rhaglen.

**2** **CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD A'R IS-GADEIRYDD**

Derbyn diweddariad gan y Cadeirydd ac/neu'r Is-gadeirydd.

**3** **COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 14 MAWRTH, 2016** (Tudalennau 1 - 4)

Cyflwyno cofnodion y cyfarfod diwethaf o'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol a gynhaliwyd ar 14 Mawrth, 2016.

**4** **TRAWSNEWID Y GWASANAETH ANABLEDDAU DYSGU** (Tudalennau 5 - 8)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Oedolion ynghylch trawsnewid y Gwasanaeth Anableddau Dysgu.

**5** **DOGFEN GYFLAWNI FLYNYDDOL**

Derbyn cyflwyniad gan y Pennaeth Trawsnewid Corfforaethol.

**6** **PANEL CANLYNIAD SGRIWTINI – RHEOLI DYLEDION** (Tudalennau 9 - 30)

Cyflwyno adroddiad y Panel Canlyniad Sgriwtini ar reoli dyledion.

**7** **PANELAU CANLYNIAD SGRIWTINI** (Tudalennau 31 - 44)

Cyflwyno adroddiad ac argymhellion y Panelau Canlyniad Sgriwtini mewn perthynas â'r isod:-

**(1) Diogelu Corfforaethol**
**(2) Gofalwyr Anffurfiol**
**(3) Gosod Tai'r Awdurdod Lleol, 2016**

**PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL**

**Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 14 Mawrth 2016**

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Y Cynghorydd R Meirion Jones (Cadeirydd)<br>Y Cynghorydd G O Jones (Is-gadeirydd)<br><br>Y Cynghorwyr Jim Evans, Ann Griffith, Llinos Medi Huws, Victor Hughes, Raymond Jones, Robert Llewelyn Jones, Alwyn Rowlands |
| **WRTH LAW:** | Prif Weithredwr<br>Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151<br>Pennaeth Trawsnewid<br>Pennaeth Proffesiwn (Adnoddau Dynol)<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd<br>Rheolwr Sgriwtini (BS)<br>Swyddog Pwyllgor (SC) |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Y Cynghorydd Lewis Davies |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Y Cynghorwyr H Eifion Jones (Aelod Portffolio ar gyfer Cyllid), Y Cynghorydd Ieuan Williams (Aelod Portffolio ar gyfer Datblygu Economaidd, Twristiaeth a Hamdden) |

1 **<u>DATGANIADAU O DDIDDORDEB</u>**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb.

2 **<u>CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD A'R IS-GADEIRYDD</u>**

Gofynnodd y Cadeirydd i Aelodau'r Pwyllgor a oedd ganddynt unrhyw faterion i adrodd arnynt:-

Adroddodd y Cynghorydd Ann Griffith ar ei phresenoldeb yng nghyfarfod y Panel Rhiant Corfforaethol ar 7 Mawrth a dywedodd bod gan y Cyngor 116 o blant mewn gofal ar hyn o bryd. Cyfeiriodd at adroddiad y Swyddog Adolygu Annibynnol a nododd bod bron i 1m yn cael ei fuddsoddi yn y Gwasanaethau Plant.

Roedd y Cynghorydd Llinos Medi Hughes wedi bod yng nghyfarfod y Bwrdd Trawsnewid Addysg ar 9 Mawrth. Adroddodd y Cynghorydd Hughes fod y Bwrdd wedi edrych ar brosiectau ar gyfer Rhyd y Llan, Caergybi, a Bro Rhosyr. Yn ogystal, adolygwyd y Gofrestr Risg Gorfforaethol a'r strategaeth foderneiddio o ran ymateb i newidiadau arfaethedig mewn ardaloedd penodol e.e. Llangefni.

Rhoddodd y Cadeirydd y wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau ar y cynnydd gydag adroddiad terfynol y Panel Canlyniad Sgriwtini ar Ddyledion Drwg a fydd yn cael ei gynnwys ar raglen cyfarfod nesaf y Pwyllgor Sgriwtini hwn a gynhelir ar 11 Ebrill 2016 ac a fydd yn cael sylw wedyn yn y Pwyllgor Gwaith ar 25 Ebrill, 2016.

Yn dilyn cyfarfod diwethaf y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol, cadarnhaodd y Cadeirydd y byddai'r Aelodau canlynol yn eistedd ar y Panelau Canlyniadau Sgriwtini (PCS) isod:-

**(a)** **Diogelu Corfforaethol** - (NID Diogelu Plant)
Cadeirydd - Y Cynghorydd Meirion Jones
Y Cynghorwyr Ann Griffith, Llinos Medi Huws a Jim Evans

**(b)** **Gosod Tai yr Awdurdod (Anheddau gwag)** -
Cadeirydd - Y Cynghorydd Gwilym Jones
Y Cynghorwyr Raymond Jones, Lewis Davies, Robert Llewelyn Jones a Victor Hughes.

**Gweithredu:**

**(b) Rheolwr Sgriwtini i roi gwybod i'r Aelodau am ddyddiad cyfarfod y Panel.**

**3** **<u>COFNODION – CYFARFOD 1 CHWEFROR, 2016</u>**

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod diwethaf y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol a gynhaliwyd ar 1 Chwefror, 2016 a chadarnhawyd eu bod yn gywir yn amodol ar y canlynol:

**<u>Materion yn codi</u>**

**Eitem 3 – Cofnodion - 1 Rhagfyr, 2015 – Monitro'r Gyllideb: Cyllideb Gyfalaf Ch2 2015/16**

Gofynnodd y Cadeirydd am eglurhad gan y Pennaeth Adnoddau ar wariant gan yr Adran Datblygu Economaidd ac ymatebodd y Pennaeth Adnoddau fod y cynnydd yn y cyllid yn fwy na'r hyn a ragwelwyd.

**Eitem 9 – Cofnodion - 1 Rhagfyr, 2015 – Gwerthusiad Blynyddol AGGCC o Berfformiad y Gwasanaethau Cymdeithasol yn 2014/15**

Cyfeiriodd y Cadeirydd at y Pwynt Gweithredu ar dudalen 3 a'r wybodaeth sydd i'w hadrodd i'r Pwyllgor. Ymatebodd y Prif Weithredwr trwy ddweud y byddai copi o gynllun gweithredu'r Gwasanaethau Plant yn mynd i'r afael ag agweddau ar adroddiad AGGCC.

**Eitem 6 – Y Gwasanaeth Iechyd Meddwl Cymunedol**

Cyfeiriodd y Cynghorydd Ann Griffith at bwynt bwled yn y cofnodion a oedd yn cyfeirio at "barn gadarnhaol am Ward Hergest". Gofynnodd am gywiriad i ddarllen "adolygiad cymysg" oherwydd y mynegwyd sylwadau cadarnhaol a negyddol.

**4** **<u>MONITRO'R GYLLIDEB: CYLLIDEB REFENIW Ch3 2015/16</u>**

Cyflwynwyd – adroddiad y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 yn nodi perfformiad ariannol gwasanaethau'r Cyngor ar gyfer Chwarter 3.
Dywedodd y Cadeirydd fod yr eitem uchod, ynghyd ag eitemau 5 a 6 isod, wedi cael eu hystyried yn gynharach heddiw gan y Pwyllgor Gwaith. Codwyd mater yn ystod y drafodaeth ynghylch amseriad y Pwyllgor Sgriwtini heddiw gan nad yw'r Pwyllgor hwn wedi cael cyfle i ystyried adroddiadau Ch3 a chyflwyno sylwadau i'r Pwyllgor Gwaith.

Rhoddodd Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd wybod i'r Pwyllgor fod y Rhestr o Gyfarfodydd Pwyllgorau ar gyfer 2016/17 wedi cael ei adolygu i fynd i'r afael â'r pwynt hwn.

**PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad.**

**5 <u>MONITRO'R GYLLIDEB: CYLLIDEB GYFALAF Ch3 2015/16</u>**

Cyflwynwyd – adroddiad y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 yn nodi perfformiad ariannol y Gyllideb Gyfalaf ar gyfer Chwarter 3.

**PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad.**

**6 <u>MONITRO PERFFORMIAD: CERDYN SGORIO CORFFORAETHOL Ch3 2015/16</u>**

Cyflwynwyd – adroddiad y Pennaeth Trawsnewid yn crynhoi Ch3 a'r camau gweithredu allweddol a nodwyd.

Yn deillio o'r drafodaeth, cyfeiriodd yr Aelodau at lefel y gwariant ar ymgynghorwyr a gofynnwyd am eglurhad ar y wybodaeth a oedd wedi'i chynnwys yn yr adroddiadau. Nododd y Pennaeth Adnoddau fod y costau o £1.6m y cyfeiriwyd atynt yn awr wedi cael eu haddasu i lawr i £1.2 miliwn yn dilyn adolygiad o wariant yn erbyn y côd ar gyfer ymgynghorwyr.

Canolbwyntiodd y drafodaeth hefyd ar yr angen i gyflogi ymgynghorwyr ar sail tymor byr i bwrpas rheoli gofynion statudol a lliniaru risgiau ac i sicrhau capasiti arbenigol e.e. ar gyfer delio â'r prosiect Wylfa Newydd.

Gofynnodd yr aelodau am eglurhad ynghylch ffioedd ymgynghori a dadansoddiad o staff asiantaeth a gyflogir gan yr Awdurdod hwn.

**Gweithredu: Cyflwyno dadansoddiad o'r ffioedd ymgynghori i gyfarfod nesaf y Pwyllgor hwn.**

**PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad.**

**7 <u>CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD</u>**

**PENDERFYNWYD mabwysiadu'r canlynol: -**
**"Dan Adran 100 (A) (4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, cau allan y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem a ganlyn, oherwydd y tebygolrwydd y câi gwybodaeth eithriedig ei datgelu fel y diffinnir hi yn Atodlen 12A y Ddeddf honno a'r Prawf Budd y Cyhoedd sydd ynghlwm".**

**<u>Eitem 8 – CYFRINACHOL</u>**

**8 <u>MONITRO PERFFORMIAD: COFRESTR RISG GORFFORAETHOL</u>**

Cyflwynwyd adroddiad gan y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 ar y Gofrestr Risg Gorfforaethol mewn perthynas â'r uchod.

Nododd y Pennaeth Adnoddau fod y Gofrestr yn cael ei hadolygu gan yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth (UDA) bob chwarter ac y cynhaliwyd yr adolygiad diwethaf ar 16 Chwefror 2016.

**PENDERFYNWYD bod y Pwyllgor yn nodi'r risgiau critigol a sylweddol ac yn ystyried effaith y risgiau hyn wrth ymgymryd â'r swyddogaeth sgriwtini yn ystod rhaglen flynyddol y Pwyllgor.**

**9 <u>BLAEN RAGLEN WAITH</u>**

Cyflwynwyd Blaenraglen Waith y Pwyllgor am y cyfnod Mai, 2015 i Fai, 2016.

Mewn perthynas â chyfeiriad y Pwyllgor at adroddiad ar y Trefniadau Ôl-Ofal (Gwasanaethau Plant), nododd y Rheolwr Sgriwtini y byddai amserlennu'r eitem hon yn cael ei adolygu fel rhan o'r Rhaglen Waith ar gyfer 2016/17.

**Gweithredu: Fel y nodwyd uchod.**

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad.**

Daeth y cyfarfod i ben am 3:20p,

**Y CYNGHORYDD R MEIRION JONES**
**CADEIRYDD**

| **CYNGOR SIR YNYS MÔN** | |
|---|---|
| **PWYLLGOR:** | **PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL** |
| **DYDDIAD:** | **11 EBRILL 2016** |
| **PWNC:** | **Y GWASANAETH ANABLEDD DYSGU CYMUNEDOL** |
| **AELOD PORTFFOLIO (S):** | **Y CYNGHORYDD ALED MORRIS JONES** |
| **PENNAETH GWASANAETH:** | **ALWYN JONES** |
| **AWDUR YR ADRODDIAD:**<br>**Ffôn:**<br>**E-bost:** | **BARBARA WILLIAMS**<br>**01248 752738**<br>**barbarawilliams@ynysmon.gov.uk** |

**1. ARGYMHELLIAD**

1.1 Bod y Pwyllgor Sgriwtini yn derbyn y datganiad sefyllfa hwn mewn perthynas â'r gwasanaeth Anabledd Dysgu.
1.2 Bod y Pwyllgor Sgriwtini yn derbyn diweddariad blynyddol mewn perthynas â'r gwasanaeth hwn.
1.3 Bod y Pwyllgor Sgriwtini yn cymeradwyo'r datblygiadau a gynlluniwyd ar gyfer y gwasanaeth hwn.

**2. RHESYMAU**

2.1 Mae hanes hir o ddarparu Gwasanaethau Anabledd Dysgu i oedolion yn Ynys mewn partneriaeth â'r gwasanaeth iechyd. Mae'r Tîm Anableddau Dysgu Cymunedol (TADC) yn dîm amlddisgyblaethol o swyddogion proffesiynol iechyd a gofal cymdeithasol, gan gynnwys Gweithwyr Cymdeithasol, Swyddog Adolygu, nyrsys Anabledd Dysgu, Seicolegydd Clinigol, Therapydd Galwedigaethol, Therapydd Iaith a Lleferydd, Ffisiotherapydd, ymgynghorwyr Cymorth Ymddygiad, Swyddog Gofalwyr a Chydlynydd Pontio sydd wedi'u cydleoli ym mhrif adeiladau'r Cyngor yn Llangefni. Mae'r TADC yn darparu gwasanaeth cynhwysfawr yn y gymuned i bobl dros 18 oed sydd wedi cael eu hasesu fel unigolion sy'n cwrdd â'r meini prawf ar gyfer bod yn gymwys i gael eu cynnwys ar y gofrestr Anabledd Dysgu.

2.2 Mae'r gwasanaeth wedi datblygu dros nifer o flynyddoedd ac mae'n parhau i hyrwyddo egwyddorion a gyflwynwyd gan Strategaeth Anfantais Feddyliol Cymru Gyfan 1984. Mae'r dull arloesol hwn wedi newid yn llwyr sut y cynigir gwasanaethau ar gyfer pobl gydag anableddau dysgu ac mae'n rhannol gyfrifol hefyd am helpu i newid agwedd cymdeithas tuag at bobl gydag anableddau dysgu. Mae dull o weithredu sy'n seiliedig ar hawliau yn sail i'r fframwaith cyfredol hwn sydd wedi'i wreiddio o fewn model cymdeithasol o ofal. Mae hyn yn gosod ffocws

clir ar sicrhau bod pobl ag anableddau dysgu yn cael eu trin yn gyfartal â phob dinesydd arall a bod ganddynt yr un hawliau a chyfrifoldebau â phobl eraill yn y gymdeithas.

2.3 Mae ymarferwyr yn y gwaith TADC yn gweithio gydag unigolion a'u teuluoedd / gofalwyr i sicrhau bod anghenion yn cael eu hasesu a, lle bo angen, bod cynllun gofal yn ei le i sicrhau bod pobl ag anableddau dysgu yn cael cymorth i fyw bywydau cyflawn yn eu cymunedau lleol a bod eu hannibyniaeth yn cael ei hyrwyddo. Adolygir y cynlluniau o leiaf bob blwyddyn i asesu pa mor effeithiol ydynt wrth gwrdd ag anghenion unigol a chânt eu diwygio yn unol â hynny.

2.4 Cydnabyddir bod gan bobl gydag anableddau dysgu ragdueddiad i ystod o gyflyrau iechyd cymhleth. Nod y dull cydlynol o weithredu gan y TADC yw sicrhau bod swyddogion gofal iechyd proffesiynol yn deall ac yn cydnabod anghenion unigol a bod ymyraethau addas yn cael eu cynnig i alluogi pobl i aros yn ffit ac yn iach.

2.5 Mae'r TADC yn cynnal asesiad blynyddol o bobl ar y gofrestr anabledd dysgu. Mae'r wybodaeth hon yn helpu i gefnogi gwaith cynllunio ac i wneud penderfyniadau am ddarparu gwasanaethau. Mae'r data diweddaraf (31 Mawrth 2015) yn dangos bod **303** o bobl ar y gofrestr bryd hynny (271 o dan 65 oed a 32 sy'n 65+ oed)

- 46 yn byw yn eu cartrefi eu hunain yn y gymuned
- 131 yn byw gyda theulu
- 87 yn byw mewn cynlluniau tai â chymorth neu rannu bywydau
- 4 yn derbyn gofal tymor hir yn yr ysbyty
- 6 yn byw mewn cartrefi gofal sy'n cael eu rhedeg gan yr awdurdod lleol
- 29 yn byw mewn cartrefi gofal preifat.

Mae'n werth nodi bod nifer y bobl ar y gofrestr Anableddau Dysgu yn cynyddu bob blwyddyn a bod y nifer wedi cynyddu o 249 i 303 dros gyfnod o ddeng mlynedd. Yn unol â thueddiadau cenedlaethol, rhagwelir y bydd y cynnydd hwn yn parhau. Yn ystod yr un cyfnod mae gwariant ar wasanaethau Anableddau Dysgu wedi gostwng yn sylweddol ac erbyn hyn mae'n is na'r gwariant yn yr awdurdodau eraill sydd yn ei grŵp 'cymharydd'.

2.6 Er mwyn cwrdd ag anghenion a aseswyd mae'r Cyngor yn darparu ac yn comisiynu ystod o wasanaethau ar ran pobl ag anableddau dysgu. Mae hyn yn cynnwys:

- Llety – byw â chymorth, rhannu bywydau a gofal preswyl
- Cymorth yn y cartref – i alluogi pobl i fyw yn eu cartrefi eu hunain neu yn y cartref teuluol
- Gofal dydd – i alluogi pobl ag anghenion cymhleth i fanteisio ar ystod o gyfleoedd a datblygu sgiliau.

- Cyfleoedd gwaith – i gefnogi pobl i ddatblygu sgiliau sy'n eu galluogi i ymgymryd â gweithgareddau sy'n seiliedig ar waith.
- Gofal ysbaid – i gefnogi unigolion sy’n gofalu am bobl ag anghenion cymhleth sy'n byw yn y cartref teuluol.
- Eiriolaeth – i gynorthwyo unigolion i ddatblygu sgiliau hunaneiriolaeth ac i gael cymorth i wneud penderfyniadau gan eiriolwyr ffurfiol lle bo angen.

2.7 Fodd bynnag, mae'r Cyngor yn ymwybodol, yn wyneb cynnydd yn y galw ac adnoddau sy’n prinhau, nad yw’r patrwm comisiynu cyfredol yn gynaliadwy. Fel ymateb i hynny, mae wedi cychwyn ar raglen drawsnewid sylweddol. Mae hyn yn cynnwys adolygiad cynhwysfawr o'r holl gontractau byw â chymorth, gan gynnwys allanoli’r ddarpariaeth fewnol yn ogystal ag adolygiad o'r holl gontractau gofal dydd a chyfleoedd gwaith.

2.8 Mae swyddogion proffesiynol yn y maes TADC yn gweithio mewn partneriaeth ag ystod o asiantaethau statudol eraill, er enghraifft, yr Heddlu, y Gwasanaeth Tân ac Achub a’r Gwasanaethau Tai er mwyn sicrhau bod gofal a chymorth yn cael eu darparu mewn dull cydlynol, priodol ac amserol a bod pobl yn cael eu grymuso a'u diogelu i fyw yn y gymuned. Yn ogystal, mae ystod gynhwysfawr o wasanaethau trydydd sector, cenedlaethol a lleol ar gael i gefnogi defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr.

2.9 Wrth symud ymlaen, mae'r gwasanaeth yn ceisio cryfhau'r trefniadau cydweithio gyda'r gwasanaeth iechyd drwy ffurfioli'r camau a amlinellir yn y papur Ymlaen Gyda’n Gilydd. Yn ogystal, mae angen datblygu rôl y defnyddwyr gwasanaeth a chyfranogiad y gofalwyr o ran monitro ac adrodd ar y gwasanaeth a ddarperir ac i sicrhau eu bod yn gallu cymryd rhan yn weithredol mewn trawsnewid gwasanaethau.

**Awdur:** Barbara Williams
**Teitl y Swydd:** Rheolwr Gwasanaeth – Anableddau Dysgu ac Iechyd Meddwl
**Dyddiad:** 15/01/2016

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | **PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL** |
| **Dyddiad:** | **11 Ebrill, 2016** |
| **Pwnc:** | **Panel Canlyniad Sgriwtini: Rheoli Dyledion – ADRODDIAD TERFYNOL** |
| **Aelod(au) Portffolio:** | **Dim yn berthnasol** |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | **Dim yn berthnasol** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>Rhif Ffôn:<br>E-bost: | **Panel Canlyniad Sgriwtini o'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol dan ofal: Anwen Davies, Rheolydd Sgriwtini Dros Dro**<br>**AnwenDavies@ynysmon.gov.uk** |
| **Aelodau Lleol:** | **Dim yn berthnasol** |

**A – Argymhelliad/Argymhellion a Rheswm/Rhesymau**

**1. CEFNDIR**

1.1 Tra'n ystyried adroddiad ar ddileu dyledion a gyflwynwyd gan y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adain 151 Dros Dro, penderfynodd y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol[1] y dylid sefydlu panel o Aelodau Sgriwtini i edrych mewn mwy o fanylder ar ddileu dyledion a rheolaeth dyledion yn yr Awdurdod;

1.2 Y bu oedi cyn i'r Panel Canlyniad Sgriwtini gyfarfod am y tro cyntaf a chafodd absenoldeb salwch yn yr Uned Gwasanaethau Democrataidd effaith ar yr amserlen a'r cynnydd gyda'r ffrwd gwaith hon. Dechreuodd y Panel ar ei wiath ddechrau mis Gorffennaf, 2015;

**2. METHODOLEG, SGÔP AC AMCANION**

2.1 **Methodoleg** – 'roedd yr adolygiad wedi'i strwythuro'n unol â fframwaith polisi'r Awdurdod[2] a oedd yn cynnwys ddatblygu cynllun prosiect sgriwtini gan ddefnyddio rhai elfennau'r methodoleg Rheoli Prosiect *PRINCE 2* er mwyn atgyfnerthu cadernid i strwythur yr adolygiad gan y Panel. Cafwyd cyfanswm o 7 cyfarfod o'r Panel dros gyfnod o 7 mis (Gorffennaf – Chwefror, 2016);

2.2 **Mewnbynnau** - cafwyd mewnbynnau gan y canlynol yn ystod yr adolygiad:

- Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adain 151;
- Rheolydd Gwasanaeth Refeniw a Budd-daliadau;
- Rheolydd Gwasanaethau Cyfrifeg;
- Deilydd Portffolio (Adnoddau) – trwy fynychu un cyfarfod o'r Panel fel sylwedydd.

[1] Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol yn ei gyfarfod a gynhaliwyd ar 24 Mawrth, 2015
[2] Y Llawlyfr Sgriwtini i Aelodau

2.3 **<u>Sgôp ac Amcanion</u>** – aeth y Panel ati i edrych mewn mwy o fanylder ar drefniadau'r Awdurdod ar gyfer rheoli dyledion (gan gynnwys dileu dyledion) drwy ymchwilio agweddau canlynol prosesau rheoli dyledion y Cyngor:

i. Diffiniad o ddyledwr, pa ddyled oedd yn ddyledus gan Wasanaethau a'r gweithredu gan Wasanaethau unigol
ii. Codi dyled a beth ddigwyddodd mewn canlyniad i hynny. Sut y derbyniwyd taliadau
iii. Gorfodaeth – egwyddorion a dulliau/gweithdrefnau
iv. Dileu dyledion
v. Ystyried y ddogfen bolisi gorfforaethol ddrafft ar reoli dyledion.

Mae'r Cylch Gorchwyl a fabwysiadwyd gan y Panel yn manylu ar yr amcanion, sgôp a'r canlyniadau a ddeisfwyd o'r Adolygiad.

2.4 **<u>Aelodaeth y Panel</u>:**

- Cyng R Meirion Jones (Cadeirydd), Jim Evans a Robert Llewelyn Jones;
- Richard Micklewright, Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adain 151 Dros Dro (tan 06/10/15);
- Marc Jones, Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adain 151 (o 03/11/15);
- Geraint H Jones, Rheolydd Gwasanaeth Refeniw a Budd-daliadau;
- Anwen Davies, Rheolydd Sgriwtini Dros Dro.

## 3. CASGLIADAU AC ARGYMELLION YR ADRODDIAD

Daeth y Panel i 3 prif gasgliad:

**3.1 CASGLIAD 1:** 'Roedd prosesau a'r ymarfer wrth anfon biliau a chasglu incwm wedi gwella dros y cyfnod diwethaf ond 'roedd rhagor i'w wneud er mwyn cynyddu canran y taliadau a dderbyniwyd ymlaen llaw am wasanaethau;

**3.2 CASGLIAD 2:** 'Roedd y Ddogfen Bolisi ddrafft ar reoli dyledion yn gychwyn da ond gyda mwy o waith ei angen i sicrhau aliniad strategol i amcanion a blaenoriaethau'r Cyngor;

**3.3 CASGLIAD 3:** Bu i'r maincnodi ar ymarfer rheoli dyledion gan y Panel ychwanegu gwerth at yr adolygiad Sgriwtini.

**Mae'r Adroddiad Terfynol ynghlwm (ATODIAD 1) yn manylu ar ystyriaethau a sylwadau'r Panel ynghyd â'r 8 argymhelliad unigol a gytunwyd gan y Panel.**

## 4. AMSERLEN AR GYFER Y CERRIG MILLTIR YN WEDDILL I'R BROSES

| DYDDIAD | CARREG FILLTIR |
|---|---|
| 25/04/16 | **Pwyllgor Gwaith** – derbyn yr Adroddiad Terfynol gydag argymhelliad i gymeradwyo'r 3 phrif gasgliad a'r 8 argymhelliad unigol. |
| Cyn diwedd Ebrill, 2016 | **Cyhoeddi'r Adroddiad Terfynol** – ar safle we'r Cyngor. |

| |
|---|
| **5. ARGYMHELLION** |
| Gofynnir i'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol (rhiant bwyllgor): |
| **5.1 Gymeradwyo'r Adroddiad Terfynol ynghyd â'i 3 phrif gasgliad a'r 8 argymhelliad unigol;** |
| **5.2 Gytuno i gyflwyno'r Adroddiad Terfynol er cymeradwyaeth gan y Pwyllgor Gwaith yn ei gyfarfod ar 25 Ebrill , 2016;** |

| **B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod ac/neu ddewis yr opsiwn hwn?** |
|---|
| Dim yn berthnasol. |

| **C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?** |
|---|
| Fel yr amlinellir yn y Rheolau Gweithdrefn Sgriwtini sy'n gynwysiedig yng Nghyfansoddiad y Cyngor. |

| **CH – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?** |
|---|
| Ydy. |

| **D – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?** |
|---|
| Dim yn hysbys. |

| **DD – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori?** | | **Beth oedd eu sylwadau?** |
|---|---|---|
| **1** | **Prif Weithredwr / Uwch Dim Arweinyddiaeth (UDA)** (mandadol) | Rhoddwyd ystyriaeth i Adroddiad Terfynol y Panel Canlyniad Sgriwtini gan yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth yn ei gyfarfod ar 07/03/16. Mae argymhellion terfynol y Panel yn adlewyrchu sylwadau'r UDA. |
| **2** | **Cyllid / Adran 151** (mandadol) | Cyfranodd y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau)/Adain 151 a'r Rheolydd Gwasanaeth Refeniw a Budd-daliadau fel aelodau craidd y Panel ac ymgynghorwyd â hwy ar gynnwys yr adroddiad drafft. Adlewyrchwyd eu sylwadau yn yr Adroddiad Terfynol. |
| **3** | **Cyfreithiol / Swyddog Monitro** | |

| | | |
|---|---|---|
| | (mandadol) | |
| **4** | **Adnoddau Dynol (AD)** | |
| **5** | **Eiddo** | |
| **6** | **Technoleg Gwybodaeth Cyfathrebu (TGCh)** | |
| **7** | **Sgriwtini** | Tra'n ystyried adroddiad gan y Pennaeth Adnoddau Dros Dro, penderfynodd y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol yn ei gyfarfod ar 24/03/15 y dylid sefydlu panel o Aelodau Sgriwtini i edrych mewn mwy o fanylder ar ddileu dyledion a rheolaeth dyledion yn yr Awdurdod. |
| **8** | **Aelodau Lleol** | Dim yn berthnasol. |
| **9** | **Unrhyw gyrff allanol / arall/eraill** | |

| **E – Risgiau ac unrhyw gamau lliniaru (os yn berthnasol)** | | |
|---|---|---|
| **1** | **Economaidd** | Dim yn berthnasol. |
| **2** | **Gwrthdlodi** | Dim yn berthnasol. |
| **3** | **Trosedd ac Anhrefn** | Dim yn berthnasol. |
| **4** | **Amgylcheddol** | Dim yn berthnasol. |
| **5** | **Cydraddoldebau** | Dim yn berthnasol. |
| **6** | **Cytundebau Canlyniad** | Dim yn berthnasol. |
| **7** | **Arall** | Dim yn berthnasol. |

| **F - Atodiadau:** |
|---|
| Panel Canlyniad Sgriwtini: Rheoli Dyledion – Adroddiad Terfynol. |

| **FF - Papurau Cefndir (cysylltwch os gwelwch yn dda gydag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):** |
|---|
| Cadeirydd y Panel Canlyniad Sgriwtini d/o Anwen Davies, Rheolydd Sgriwtini Dros Dro, Cyngor Sir Ynys Môn, Swyddfeydd y Cyngor, Llangefni. LL77 7TW. |

# PANEL CANLYNIAD SGRIWTINI: RHEOLI DYLEDION

## ADRODDIAD TERFYNOL

Uned Sgriwtini Gorfforaethol

Chwefror, 2016

# Diolchiadau

Hoffem ddiolch i'r canlynol sydd wedi rhoi o'u hamser yn ystod yr adolygiad hwn. Gwelwyd eu ymgysylltu, cyfranogiad a chyfraniadau llawn yn hwyluso'r dasg dan sylw ac o ganlyniad yn ei gwneud yn bosibl i'r Panel gwblhau'r gwerthusiad oddi mewn i'r amserlen. Hoffem hefyd gydnabod y ffaith i ni gael mynediad pen agored i'r holl ffynonellau data, llenyddiaeth a dogfennau perthnasol ac o ganlyniad yn galluogi adolygiad llawn a chynhwysfawr o elfennau allweddol prosesau a gweithdrefnau corfforaethol ar gyfer rheoli dyledion:

- Marc Jones, Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adain 151;
- Geraint H Jones, Rheolydd Gwasanaeth Refeniw a Budd-daliadau;
- Bethan Hughes Owen, Rheolydd Gwasanaethau Cyfrifeg;
- Richard Micklewright, Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adain 151 Dros Dro.

**Pam mae hyn yn bwysig?**



Cynghorydd R Meirion Jones

# Cyflwyniad gan Gadeirydd y Panel

Yn y Cynllun Corfforaethol nod Cyngor Sir Ynys Môn yw i'r Cyngor fod yn broffesiynol ac yn cael ei redeg yn dda a'i fod yn cyflawni.

Un agwedd o waith y Cyngor ydy rheoli dyledion. Nid oes gwerth mewn gweithio'n galed a cheisio bod yn ddarbodus ynglŷn ag arian a gwerth arian os nad oes trefn ar ddyledion. Rhaid cyfaddef nad yw'n bosibl casglu holl ddyledion unrhyw gorff ond mae'n bosibl cael prosesau cadarn mewn lle sy'n cymryd pob cam posib i gasglu gyda threfniadau mewn lle i ddileu dyled fel cam olaf yn unig.

'Roedd y Panel yn ymwybodol bod cyllid yn hollbwysig i'r gwasanaethau y mae cynghorau'n eu darparu ac y câi'r heriau ariannol sy'n wynebu cynghorau effaith pellgyrhaeddol – a hynny o ran y gwasanaethau ac yn y blaen. Credai'r Panel fod casglu incwm yn effeithiol gan yr Awdurdod a hefyd prosesau rheoli dyledion ymatebol yn rhagofynion o brosesau rheoli cyllid effeithiol ac effeithlon.

Credaf fod y Panel wedi gallu cyfrannu at ddatblygu ac adolygu Polisi Corfforaethol y Cyngor ar Reoli Dyledion a hefyd wedi codi nifer o gwestiynau a phwyntiau bydd rhaid i'r Cyngor eu hystyried i symud ymlaen.

Fel Panel o'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol 'rydym eisoes wedi adrodd ar Arbedion Effeithlonrwydd. Eto, nid oes rhinwedd mewn gwneud arbedion os nad ydyw pob rhan o'r Cyngor yn gweithio'n effeithiol i gynnwys rheoli dyledion.

Mae Adroddiad Blynyddol Sgriwtini, Mai 2015, yn cyfeirio at Adroddiad Williams a'r gofyn am "gydnabod pwysigrwydd a gwerth gwaith craffu wrth wella gwasanaethau i bobl a sefydliadau . . ." Gwna Adroddiad Williams nifer o ddatganiadau cefnogol i'r drefn craffu gan gynnwys "Rhaid i sefydliadau ystyried craffu fel buddsoddiad i sicrhau gwelliannau ac arbedion yn y dyfodol." Gobeithio bod ein gwaith yn y mater drwy yr adroddiad hwn yn cyfrannu at y "gwerth gwaith", "gwelliannau" a'r "arbedion" hynny.

Hoffwn gymryd y cyfle hwn i ddiolch yn ddiffuant i aelodau'r Panel am eu cyfraniadau a'u hymroddiad ac i Swyddog y Panel am ei gwaith trylwyr ac amserol unwaith eto.

# Mynegai o'r Cynnwys

Diolchiadau
Cyflwyniad gan Gadeirydd y Panel

| | Tudalen |
|---|---|
| **1. Crynodeb Gweithredol** | **5** |
| **ADRODDIAD LLAWN Y PANEL** | |
| **2. Cefndir** | **8** |
| **3. Methodoleg, Sgôp ac Amcanion** | **8** |
| **4. Casgliadau** | **10** |
| **5. Argymhellion** | **13** |
| **6. Llyfryddiaeth** | **14** |
| **ATODIAD** | |
| Cylch Gorchwyl: Panel Canlyniad Sgriwtini | **ATODIAD 1** |

# 1. CRYNODEB GWEITHREDOL

### 1.1 Amcanion a Sgôp yr Adolygiad

Edrych ar drefniadau'r Awdurdod ar gyfer rheoli dyledion (gan gynnwys dileu dyledion) drwy edrych mewn mwy o fanylder ar yr agweddau canlynol o brosesau rheoli dyledion y Cyngor:

i. Diffiniad o ddyledwr, pa ddyled oedd yn ddyledus gan Wasanaethau a'r gweithredu gan Wasanaethau unigol
ii. Codi dyled a beth ddigwyddodd mewn canlyniad i hynny. Sut y derbyniwyd taliadau
iii. Gorfodaeth – egwyddorion a dulliau/gweithdrefnau
iv. Dileu dyledion
v. Ystyried y ddogfen bolisi gorfforaethol ddrafft ar reoli dyledion.

### 1.2 Methodoleg/Tystiolaeth/Mewnbynnau Inputs a ystyriwyd.

Cafodd yr adolygiad ei strwythuro'n unol â fframwaith polisi'r Awdurdod[1]. 'Roedd hyn yn cynnwys cynllun prosiect sgriwtini gan ddefnyddio rhai elfennau'r methodoleg Rheoli Prosiect[2] er mwyn sicrhau cadernid i strwythur yr adolygiad gan y Panel. Cafwyd 7 o gyfarfodydd y Panel dros gyfnod o 7 mis (rhwng Gorffennaf, 2015 a Chwefror, 2016).

### 1.3 Aelodaeth y Panel Canlyniad Sgriwtini[3]

- Cynghorydd R. Meirion Jones (Cadeirydd);
- Cynghorydd Jim Evans;
- Cynghorydd Robert Llewelyn Jones;
- Richard Micklewright, Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adain 151 Dros Dro (tan 06/10/15);
- Marc Jones, Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adain 151 (o 03/11/15);
- Geraint H Jones, Rheolydd Gwasanaeth Refeniw a Budd-daliadau Manager;
- Anwen Davies, Rheolydd Sgriwtini Dros Dro.

### 1.4 Casgliadau

**CASGLIAD 1:** 'Roedd prosesau a'r ymarfer wrth anfon biliau a chasglu incwm wedi gwella dros y cyfnod diwethaf ond 'roedd rhagor i'w wneud er mwyn cynyddu canran y taliadau a dderbyniwyd ymlaen llaw am wasanaethau.

**CASGLIAD 2:** 'Roedd y Ddogfen Bolisi ddrafft ar reoli dyledion yn gychwyn da ond gyda mwy o waith ei angen i sicrhau aliniad strategol i amcanion a blaenoriaethau'r Cyngor**.**

[1] Manylion yn y Llawlyfr Sgriwtini i Aelodau.
[2] PRINCE2
[3] Penderfynodd y Cyng Llinos Medi Huws sefyll i lawr fel aelod o'r Panel a hynny oherwydd pwysau gwaith sylweddol dros y cyfnod nesaf. Wrth ystyried y mater yn ei gyfarfod ar 06/07/15, penderfynodd y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol i beidio ag enwebu Aelod arall i fod ar y Panel.

**CASGLIAD 3:** Bu i'r maincnodi ar ymarfer rheoli dyledion gan y Panel ychwanegu gwerth at yr adolygiad Sgriwtini.

1.5 **Argymhellion**

Mae'r Panel yn argymell y canlynol i'r Pwyllgor Gwaith:

**1. 'Roedd prosesau a'r ymarfer wrth anfon biliau a chasglu incwm wedi gwella dros y cyfnod diwethaf ond 'roedd rhagor i'w wneud er mwyn cynyddu canran y taliadau a dderbyniwyd ymlaen llaw am wasanaethau.**

| RHIF | ARGYMHELLIAD |
|---|---|
| **1.1** | Dylai'r Pwyllgor Gwaith gytuno i bolisi cyffredinol o godi ffi ymlaen llaw ar gyfer nwyddau a gwasanaethau, lle mae hynny'n bosibl. |
| **1.2** | Dylai'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth gefnogi'r Gwasanaethau unigol i weithredu'r polisi o godi ffi ymlaen llaw am nwyddau a gwasanaethau. |
| **1.3** | Pan mae'n amserol, dylai'r Pennaeth Adnoddau sicrhau strategaeth mewn lle i wella lefelau casglu incwm drwy gyflwyno newidiadau i'n dulliau casglu presennol. |
| **1.4** | Dylai'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth ystyried gwneud defnydd llawn o'r gronfa newid arfaethedig[4] i gyflwyno newid yn ein diwylliant, systemau, prosesau a gweithdrefnau casglu incwm ar lefel gorfforaethol a gwasanaethau (a sicrhau aliniad gyda'r Prosiect Gweithio'n Gallach). |

**2. 'Roedd y Ddogfen Bolisi ddrafft ar reoli dyledion yn gychwyn da ond gyda mwy o waith ei angen i sicrhau aliniad strategol i amcanion a blaenoriaethau'r Cyngor.**

| RHIF | ARGYMHELLIAD |
|---|---|
| **2.1** | Fel cam cyntaf, dylai'r Pwyllgor Gwaith ddatgan polisi'r Cyngor ar agweddau canlynol ein trefniadau rheoli dyledion:<br>• Sut y dylai'r Cyngor ymdrin ag unigolion sy'n gwrthod talu am wasanaethau gofal (ee Gofal Môn, gofal cartref, preswyl neu nyrsio)<br>• Sut y dylai'r Cyngor ymdrin ag eiddo unigolion o dan y cynllun taliadau wedi'u gohirio ("*deferred charges*"). |
| **2.2** | Argymell i'r Pwyllgor Gwaith gymeradwyo'r ddogfen bolisi gorfforaethol ar reoli dyledion yn ddarostyngedig i'r gwelliannau canlynol:<br>• Datblygu strategaeth gwrth-dlodi i fod yn rhan integredig o'n trefniadau rheoli dyledion<br>• Cwblhau asesiadau effaith cydraddoldeb ac iaith<br>• Sicrhau aliniad gydag unrhyw argymhellion ddaw'n sgîl yr adolygiad i'w gomisiynu gan y Cyngor o ddarparwyr cyngor ariannol. |
| **2.3** | Dylai'r Pennaeth Adnoddau gyflwyno'r Ddogfen Bolisi Gorfforaethol ar reoli dyledion er cymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith o fewn amserlen i'w chytuno gan y Pwyllgor Gwaith. |

[4] Bydd cynnig gerbron y Pwyllgor Gwaith yn ei gyfarfod i'w gynnal ar 07/03/16 i ddyrannu swm o'r cronfeydd wrth gefn cyffredinol i ariannu newidiadau mewn prosesau busnes wedi'u dylunio i ryddhau rhagor o arbedion effeithlonrwydd.

**3. Bu i'r maincnodi ar ymarfer rheoli dyledion gan y Panel ychwanegu gwerth at yr adolygiad Sgriwtini.**

| RHIF | ARGYMHELLIAD |
|---|---|
| **3.1** | Dylai'r Pennaeth Adnoddau ddefnyddio allbwn gwaith maincnodi'r Panel ar arferion da rheoli dyledion mewn awdurdodau eraill er mwyn ychwanegu gwerth at y Ddogfen Bolisi ddrafft: Rheoli Dyledion. |

# ADRODDIAD LLAWN Y PANEL

## 2. CEFNDIR

2.1 Tra'n ystyried yr adroddiad ar ddileu dyledion a gyflwynwyd gan y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adain 151 Dros Dro, penderfynodd y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol[5] y dylid sefydlu panel o Aelodau Sgriwtini i edrych mewn mwy o fanylder ar ddileu dyledion a rheolaeth dyledion yn yr Awdurdod;

2.2 Y bu oedi cyn i'r Panel Canlyniad Sgriwtini gyfarfod am y tro cyntaf a chafodd absenoldeb salwch yn yr Uned Gwasanaethau Democrataidd effaith ar yr amserlen a'r cynnydd gyda'r ffrwd gwaith hon. Dechreuodd y Panel ar ei waith ddechrau mis Gorffennaf, 2015;

2.3 'Roedd y Panel yn ymwybodol bod cyllid yn hollbwysig i'r gwasanaethau y mae cynghorau'n eu darparu ac y câi'r heriau ariannol sy'n wynebu cynghorau effaith pellgyrhaeddol – a hynny o ran y gwasanaethau a dderbynnir a'r trethi a'r ffioedd a delir[6]. Credai'r Panel fod casglu incwm yn effeithiol gan yr Awdurdod a hefyd prosesau rheoli dyledion ymatebol yn rhagofynion o brosesau rheoli cyllid effeithiol ac effeithlon.

## 3. METHODOLEG, SGÔP AC AMCANION

3.1 **Aelodaeth y Panel Canlyniad Sgriwtini[7]**

- Cynghorydd R. Meirion Jones (Cadeirydd);
- Cynghorydd Jim Evans;
- Cynghorydd Robert Llewelyn Jones;
- Richard Micklewright, Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adain 151 Dros Dro (tan 06/10/15);
- Marc Jones, Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adain 151 (o 03/11/15);
- Geraint H Jones, Rheolydd Gwasanaeth Refeniw a Budd-daliadau;
- Anwen Davies, Rheolydd Sgriwtini Dros Dro.

3.2 **Amcanion a Sgôp yr Adolygiad**

Edrych ar drefniadau'r Awdurdod ar gyfer rheoli dyledion (gan gynnwys dileu dyledion) drwy edrych mewn mwy o fanylder ar yr agweddau canlynol o brosesau rheoli dyledion y Cyngor:

i. Diffiniad o ddyledwr, pa ddyled oedd yn ddyledus gan Wasanaethau a'r gweithredu gan Wasanaethau unigol
ii. Codi dyled a beth ddigwyddodd mewn canlyniad i hynny. Sut y derbyniwyd taliadau
iii. Gorfodaeth – egwyddorion a dulliau/gweithdrefnau
iv. Dileu dyledion
v. Ystyried y ddogfen bolisi gorfforaethol ddrafft ar reoli dyledion.

---

[5] Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol yn ei gyfarfod a gynhaliwyd ar 24 Mawrth, 2015

[6] Raising the stakes: financial scrutiny in challenging times: A guide for Welsh local authorities (Y Ganolfan Graffu Gyhoeddus Mehefin, 2014)

[7] Penderfynodd y Cyng Llinos Medi Huws sefyll i lawr fel aelod o'r Panel a hynny oherwydd pwysau gwaith sylweddol dros y cyfnod nesaf. Wrth ystyried y mater yn ei gyfarfod ar 06/07/15, penderfynodd y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol i beidio ag enwebu Aelod arall i fod ar y Panel.

Mae'r Cylch Gorchwyl a fabwysiadwyd gan y Panel yn manylu ar yr amcanion, sgôp a'r canlyniadau a ddeisfwyd o'r Adolygiad **(ATODIAD 1).**

### 3.3 Methodoleg/Tystiolaeth/Mewnbynnau a ystyriwyd

3.3.1 **Methodoleg/Tystiolaeth:** 'roedd yr Adolygiad wedi'i strwythuro'n unol â fframwaith polisi'r Awdurdod[8]. 'Roedd hyn yn cynnwys cynllun prosiect sgriwtini gan ddefnyddio rhai elfennau o fethodoleg Rheoli Prosiect[9] er mwyn sicrhau cadernid i strwythur yr adolygiad. Cynhaliwyd 7 o gyfarfodydd o'r Panel dros gyfnod o 7 mis (rhwng Gorffennaf, 2015 a Chwefror, 2016) – yn gweithio i'r Atodlen canlynol:

**RHAGLEN WAITH: PANEL CANLYNIAD SGRIWTINI [DYLEDION]**

| CYFARFOD | MATERION RHODDWYD SYLW IDDYNT | TYSTIOLAETH I LAW |
|---|---|---|
| **1** | Cylch gorchwyl, cynllun prosiect a gosod y cyd-destun; ystyried manylion a fformat yr wybodaeth yr oedd ei hangen ar y Panel | Cylch gorchwyl a chynllun prosiect drafft. |
| **2** | Diffiniad o ddyledwr, pa ddyled sy'n ddyledus gan Wasanaethau a gweithredu gan Wasanaethau unigol | Dogfennaeth gan swyddogion Cyllid yn crynhoi'r wybodaeth allweddol ar reoli dyledion |
| **3** | Codi dyled a beth sy'n digwydd. Sut y derbynnir taliadau | Dogfennaeth gan swyddogion Cyllid ar brosesau a systemau cyfredol<br>Manylion cofrestr ffioedd a thaliadau cyfredol y Cyngor<br>Dadansoddiad dulliau talu am y cyfnod 01/04/14 – 31/03/15 |
| **4** | Gorfodaeth – egwyddorion a dulliau/ gweithdrefnau | Cyflwyniad llafar gan swyddogion Cyllid ar yr ymarfer gorfodaeth |
| **5** | Dileu dyledion | Dadansoddiad lefel dyledion 2015 a 2016<br>Darpariaeth ar gyfer dyledion drwg a symudiadau yn ystod 2014/15 |
| **6** | Craffu cyn-penderfyniad y Dogfen Bolisi Gorfforaethol: Rheoli Dyledion | Dogfen Bolisi Ddrafft |
| **7** | Cytuno cynnwys amlinellol Adroddiad y Panel Canlyniad Sgriwtini | Matrics fel canllaw i grynhoi darganfyddiadau a chytuno casgliadau |

Mae'r holl ddogfennau a wnaed adolygiad pen bwrdd ohonynt wedi'u rhestru yn Adran 6.

Datblygwyd matrics drwy gydol y broses adolygu i grynhoi sylwadau ac argymhellion.

3.3.2 **Mewnbynnau:** cafwyd mewnbynnau gan y canlynol yn ystod yr adolygiad:

- Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adain 151;

[8] Y Llawlyfr Sgriwtini i Aelodau
[9] PRINCE2

- Rheolydd Gwasanaeth Refeniw a Budd-daliadau;
- Rheolydd Gwasanaethau Cyfrifeg;
- Deilydd Portffolio (Adnoddau) – trwy fynychu un cyfarfod o'r Panel fel sylwedydd.

3.3.3 **Maincnodi/Barn Annibynnol:** bu i'r Panel gwblhau gwaith maincnodi pen bwrdd drwy holiadur ar un elfen o'i Adolygiad sef - cymharu'r ymarfer rheoli dyledion cyfredol mewn 7 awdurdod lleol arall (Cynghorau Gogledd Cymru a hefyd Powys a Cheredigion). Cafwyd ymateb gan 3 o'r cynghorau – Gwynedd, Conwy a Fflint. Daeth y Panel i gasgliad y byddai'n ychwanegu gwerth o gynnwys arfer da un o'r Siroedd rheiny (Sir Fflint) wrth gwblhau'r ddogfen bolisi gorfforaethol ar reoli dyledion.

# 4. CASGLIADAU

'Roedd y consyrn gwreiddiol arweiniodd at sefydlu'r panel sgriwtini'n ymwneud â maint y dyledion i'w dileu ddiwedd 2014/15 a phryder penodol ynglŷn â maint y dyledion gan gyrff cyhoeddus eraill (megis y Bwrdd Iechyd). Nodwyd gan y Panel i'r camau canlynol gael eu gweithredu dros y misoedd diwethaf mewn ymgais i wella ar y sefyllfa:

4.1 Arbenigedd i ddilyn i fyny ar ddyledion drwy greu capasiti dros dro (staff asiantaeth)

4.2 Cryfhau'r trefniadau contractio gyda chyrff cyhoeddus eraill – gydag egwyddor sylfaenol o beidio â chodi biliau nad oedd yn bosibl i'w gorfodi i dalu (systemau cadarn)

4.3 canran uwch yn talu am wasanaethau a nwyddau ymlaen llaw ee *chip & pin*

4.4 Gwella pellach yn ein systemau casglu drwy Ddebyd Uniongyrchol ee Gofal Môn, gofal cartref, unedau diwydiannol

4.5 camau mewn lle i sicrhau clirdeb a dealltwriaeth am statws cyfreithiol (*legal entity*) cyrff cyn codi biliau am daliad.

Mynegodd y Panel yr angen i ddod i gasgliad ynglŷn ag effeithiolrwydd y camau uchod i ostwng maint y dyledion i'w dileu. Yn ystod cyfarfodydd 1 i 5 felly, rhoes y Panel sylw i elfennau allweddol ein trefniadau rheoli dyled wedi'u hategu gan yr ystyriaethau canlynol:

i. Asesu effeithiolrwydd ein prosesau ac ymarfer wrth anfon biliau a chasglu incwm;
ii. Asesu effeithiolrwydd ein trefniadau rheoli dyled ac yn arbennig beth oedd angen ei gryfhau yn y berthynas gyda'r gwasanaethau unigol er mwyn sicrhau rheolaeth effeithiol o ddyledion;
iii. Adnabod unrhyw arferion da rheoli dyledion mewn awdurdodau eraill yng Ngogledd Cymru;
iv. Adnabod unrhyw botensial am arbedion effeithlonrwydd drwy wella ymhellach ar ein systemau codi biliau am nwyddau a gwasanaethau;
v. Dod i farn ynghylch cadernid y ddogfen bolisi gorfforaethol arfaethedig ar reoli dyledion.

| CASGLIAD 1: **'Roedd prosesau a'r ymarfer wrth anfon biliau a chasglu incwm wedi gwella dros y cyfnod diwethaf ond 'roedd rhagor i'w wneud er mwyn cynyddu canran y taliadau a dderbyniwyd ymlaen llaw am wasanaethau.** |
|---|

Sylwadau'r Panel

- 'Roedd camau positif wedi'u cymryd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf i ddatblygu effeithiolrwydd ein prosesau ac ymarfer corfforaethol wrth anfon biliau a chasglu incwm. Nodwyd mai drwy Ddebyd Uniongyrchol oedd y dull talu

wedi'i ffafrio gan y Cyngor. Wrth ddod i gasgliad, defnyddiodd y Panel y mesuriadau llwyddiant canlynol fel canllaw:

i. <u>Gostyngiad yn niferoedd y biliau codwyd am nwyddau a gwasanaethau</u>

- **Nifer y biliau codwyd ym 2013/14 – 20,287**
- **Nifer y biliau codwyd ym 2014/15 – 15,236**
- **Nifer y biliau codwyd ym 2015/16* - 11,205**

[*Data hyd at 26/02/16]

ii. <u>Gostyngiad yn lefel dyledion y Cyngor</u>
Edrychwyd ar ddata dyledion y 2 flynedd diwethaf:

| Dyddiad | Y Dreth Gyngor | Y Dreth Fusnes | Rhenti Tai[10] | Dyledion Eraill | Cyfanswm £m |
|---|---|---|---|---|---|
| **31/03/14** | **1.9** | **1.0** | **0.8** | **3.9** | **7.6** |
| **31/03/15** | **2.0** | **0.7** | **0.8** | **3.0** | **6.5** |
| **31/03/16**** | I'w gadarnhau | I'w gadarnhau | I'w gadarnhau | I'w gadarnhau | I'w gadarnhau |

[** ni fydd y data ar gael tan ddiwedd Ebrill, 2016]

Er i'r Panel ddod i gasgliad fod yna bellach mwy o hyder yn effeithiolrwydd y systemau corfforaethol, bu i'r Aelodau hefyd ddatgan yr angen am ragor o waith datblygu oddi mewn i egwyddorion y Prosiect Gweithio'n Gallach. Gwnaed cyfeiriad penodol at yr elfennau a ganlyn:

- Angen am gytundeb ysgrifenedig ymlaen llaw gyda chyrff cyhoeddus eraill a oedd yn gosod allan yn hollol glir y telerau darparu a thalu
- Trefniadau monitro rheolaidd mewn lle ar gyfer y sawl nad oedd yn talu am eu gwasanaethau/nwyddau ymlaen llaw neu drwy Ddebyd Uniongyrchol.

- Credai'r Panel fod angen gosod uchelgais glir sef – anelu at ymarfer cyfoes ac addas i bwrpas wrth godi tâl am nwyddau a gwasanaethau. Nodwyd yr angen i'r Cyngor allu derbyn canrannau sylweddol iawn o daliadau ymlaen llaw gan ddefnyddwyr gwasanaethau. Byddai hynny o reidrwydd yn arwain at ostyngiad sylweddol yn yr angen i anfon anfonebau am dâl.

<u>CASGLIAD 2:</u> **'Roedd y Ddogfen Bolisi ddrafft ar reoli dyledion yn gychwyn da ond gyda mwy o waith ei angen i sicrhau aliniad strategol i amcanion a blaenoriaethau'r Cyngor.**

<u>Sylwadau'r Panel</u>

- 'Roedd y Panel o'r farn fod y gwaith hyd yma ar y ddogfen bolisi rheoli dyledion yn gadarnhaol ond bod angen ei chwblhau a'i chyflwyno er cymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith dros y misoedd nesaf
- Cyfeiriodd y Panel at yr angen am glirdeb ar agweddau canlynol y polisi corfforaethol:

[10] Gan gynnwys ôl-ddyledion cyn denantiaid; mân ddyledion dros 30 diwrnod a gor-daliadau budd-dâl tai.

- Sut y dylai'r Cyngor ymdrin ag unigolion oedd yn gwrthod talu am wasanaethau gofal megis Gofal Môn, gofal cartref/preswyl neu nyrsio.
- Sut y dylai'r Cyngor ymdrin ag eiddo unigolion o dan y cynllun taliadau wedi'u gohirio (*"deferred charges"*).

- Wrth ystyried cyd-destun sefyllfaoedd ble nad oedd y Cyngor yn derbyn taliadau am wasanaethau a ddarparwyd, cyfeiriodd y Panel at yr angen i sicrhau perthynas rhagweithiol gyda'r gwasanaethau unigol drwy uchafu'r angen am benderfyniad i Benaethiaid. Byddai ymarfer o'r math yn galluogi'r Cyngor i wneud penderfyniadau bwriadol i gynnal gwasanaeth mewn amgylchiadau o fethiant i dalu a hynny'n sgîl asesiad o'r sefyllfa unigol;
- 'Roedd y Panel o'r farn y dylai unrhyw benderfyniad i ddileu dyledion yn cael ei ddwyn i sylw'r Pennaeth Adnoddau/Deilydd Portffolio Adnoddau[11] mewn modd amserol gan roi terfyn ar yr arfer o adael i ddyledion a oedd yn weddill aros ar y llyfrau yn ddiderfyn.

| CASGLIAD 3: **Bu i'r maincnodi ar ymarfer rheoli dyledion gan y Panel ychwanegu gwerth at yr adolygiad Sgriwtini.** |
|---|

Sylwadau'r Panel
Mae yna grynodeb o waith maincnodi'r Panel ym mharagraff 3.3.3 uchod.

- Nodwyd y meysydd canlynol fel arfer da i'w ymchwilio ymhellach gan y Pennaeth Adnoddau:
  - Derbyn taliadau ymlaen llaw am wasanaethau ee Rheoli Haint
  - Cyflwyno taliadau Debyd Uniongyrchol wythnosol
  - Ystyried cyflwyno taliadau arlein drwy ffonau symudol (ee Ping It)
  - Datblygu Polisi Dyled Teg fel rhan o ymateb y Cyngor i oblygiadau Diwygio Lles
  - Datblygu polisi corfforaethol ar gyfer ad-ennill dyledion (ar y gweill)
  - Cyflwyno contract i gymryd lle'r fframwaith cytundeb lefel gwasanaeth presennol i gryfhau'r berthynas gyda chasglwyr dyledion
  - Newid yr ymarfer cyfredol i roi credyd i gyllidebau gwasanaethau unigol ar ôl derbyn yr incwm.

# 5. ARGYMHELLION

Cyflwyno'r argymhellion canlynol er cymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith:

| **1. 'Roedd prosesau a'r ymarfer wrth anfon biliau a chasglu incwm wedi gwella dros y cyfnod diwethaf ond 'roedd rhagor i'w wneud er mwyn cynyddu canran y taliadau a dderbyniwyd ymlaen llaw am wasanaethau.** |
|---|

| RHIF | ARGYMHELLIAD |
|---|---|
| **1.1** | Dylai'r Pwyllgor Gwaith gytuno i bolisi cyffredinol o godi ffi ymlaen llaw ar gyfer nwyddau a gwasanaethau, lle mae hynny'n bosibl. |

[11] Awdurdod gweithredol wedi'i ddirprwyo i ddileu dyledion efo'u gwerth tros £5k: Deilydd Portffolio (Cyllid)/ Swyddog Adran 151 (penderfyniad gan y Pwyllgor Gwaith yn ei gyfarfod ar 21 Rhagfyr, 2010).

| | |
|---|---|
| **1.2** | Dylai'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth gefnogi'r Gwasanaethau unigol i weithredu'r polisi o godi ffi ymlaen llaw am nwyddau a gwasanaethau. |
| **1.3** | Pan mae'n amserol, dylai'r Pennaeth Adnoddau sicrhau strategaeth mewn lle i wella lefelau casglu incwm drwy gyflwyno newidiadau i'n dulliau casglu presennol. |
| **1.4** | Dylai'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth ystyried gwneud defnydd llawn o'r gronfa newid arfaethedig[12] i gyflwyno newid yn ein diwylliant, systemau, prosesau a gweithdrefnau casglu incwm ar lefel gorfforaethol a gwasanaethau (a sicrhau aliniad gyda'r Prosiect Gweithio'n Gallach). |

**2. 'Roedd y Ddogfen Bolisi ddrafft ar reoli dyledion yn gychwyn da ond gyda mwy o waith ei angen i sicrhau aliniad strategol i amcanion a blaenoriaethau'r Cyngor.**

| RHIF | ARGYMHELLIAD |
|---|---|
| **2.1** | Fel cam cyntaf, dylai'r Pwyllgor Gwaith ddatgan polisi'r Cyngor ar agweddau canlynol ein trefniadau rheoli dyledion:<br>• Sut y dylai'r Cyngor ymdrin ag unigolion sy'n gwrthod talu am wasanaethau gofal (ee Gofal Môn, gofal cartref, preswyl neu nyrsio)<br>• Sut y dylai'r Cyngor ymdrin ag eiddo unigolion o dan y cynllun taliadau wedi'u gohirio ("*deferred charges*"). |
| **2.2** | Argymell i'r Pwyllgor Gwaith gymeradwyo'r ddogfen bolisi gorfforaethol ar reoli dyledion yn ddarostyngedig i'r gwelliannau canlynol:<br>• Datblygu strategaeth gwrth-dlodi i fod yn rhan integredig o'n trefniadau rheoli dyledion<br>• Cwblhau asesiadau effaith cydraddoldeb ac iaith<br>• Sicrhau aliniad gydag unrhyw argymhellion ddaw'n sgîl yr adolygiad i'w gomisiynu gan y Cyngor o ddarparwyr cyngor ariannol. |
| **2.3** | Dylai'r Pennaeth Adnoddau gyflwyno'r Ddogfen Bolisi Gorfforaethol ar reoli dyledion er cymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith o fewn amserlen i'w chytuno gan y Pwyllgor Gwaith. |

**3. Bu i'r maincnodi ar ymarfer rheoli dyledion gan y Panel ychwanegu gwerth at yr adolygiad Sgriwtini.**

| RHIF | ARGYMHELLIAD |
|---|---|
| **3.1** | Dylai'r Pennaeth Adnoddau ddefnyddio allbwn gwaith maincnodi'r Panel ar arferion da rheoli dyledion mewn awdurdodau eraill er mwyn ychwanegu gwerth at y Ddogfen Bolisi ddrafft ar reoli dyledion. |

[12] Bydd cynnig gerbron y Pwyllgor Gwaith yn ei gyfarfod i'w gynnal ar 07/03/16 i ddyrannu swm o'r cronfeydd wrth gefn cyffredinol i ariannu newidiadau mewn prosesau busnes wedi'u dylunio i ryddhau rhagor o arbedion effeithlonrwydd.

# 6. PAPURAU CEFNDIR/LLYFRYDDIAETH

6.1 Dogfennau wedi'u manylu yn rhaglen waith y Panel (paragraff 3.3.1 uchod).
6.2 Crynodebau o drafodaethau'r Panel.
6.3 Cofnodion cyfarfodydd y Panel Canlyniad Sgriwtini

- Cyfarfod 1 – 30/06/15
- Cyfarfod 2 – 28/07/15
- Cyfarfod 3 – 06/10/15
- Cyfarfod 4 – 03/11/15
- Cyfarfod 5 – 03/12/15
- Cyfarfod 6 – 05/01/16
- Cyfarfod 7 – 18/02/16

Fersiwn 5
24/03/16

# ATODIAD 1

# CYLCH GORCHWYL
# PANEL CANLYNIAD SGRIWTINI: RHEOLI DYLEDION

**CYLCH GORCHWYL**
**PANEL CANLYNIAD SGRIWTINI: RHEOLI DYLEDION**

Mae'r ddogfen Cylch Gorchwyl hon (CG) yn gosod allan y trefniadau gweithio a ffiniau gwaith y Panel Canlyniad Sgriwtini: Rheoli Dyledion, sydd newydd ei sefydlu.

## 1. CEFNDIR/CYD-DESTUN

1.1 Cyflwynwyd adroddiad ar Ddileu Dyledion gan y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a'r Swyddog 151 Dros Dro i'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol yn ei gyfarfod a gynhaliwyd ar 24 Mawrth, 2015. Gofynnwyd i'r Pwyllgor Sgriwtini ystyried y dyledion a argymhellwyd i'w dileu[13]:

- Dyledion â gwerth yn uwch na £5k ac a gyfeiriwyd i'r Deilydd Portffolio (Cyllid) a'r Swyddog Adran 151 Dros Dro iddynt ystyried eu dileu;
- Mân ddyledion – Graddfeydd Casglu;
- Graddfeydd Casglu'r Dreth Gyngor;
- Graddfeydd Casglu'r Dreth Fusnes.

1.2 Yn sgîl ei ystyriaeth, gwelwyd y Pwyllgor Sgriwtini'n gwneud y penderfyniadau canlynol:

- Nodi'r adroddiad a'r sefyllfa ynglŷn â'r dyledion i'w dileu;
- Sefydlu Panel Canlyniad Sgriwtini i edrych mewn mwy o fanylder ar ddileu dyledion a hefyd rheoli dyled yn yr Awdurdod.

## 2. RÔL, PWRPAS A SGÔP

Bydd rôl y Panel Canlyniad Sgriwtini'n cynnwys edrych mewn mwy o fanylder ar:

- Ddileu dyledion;
- Reoli dyled yn yr Awdurdod.

Gwneir hyn trwy edrych mewn mwy o fanylder ar y gwahanol elfennau ym mhroses rheoli dyledion yr Awdurdod:

i. Diffiniad o ddyledwr, pa ddyled sy'n ddyledus gan Wasanaethau a'r gweithredu gan Wasanaethau unigol;
ii. Codi dyled a beth sy'n digwydd. Sut y derbynnir taliadau;
iii. Gorfodaeth – egwyddorion a dulliau/gweithdrefnau;
iv. Dileu dyledion.

## 3. AELODAETH

Bydd aelodaeth graidd y Panel yn cynnwys:

**3.1 Aelodaeth – Aelodau Etholedig**:

- Cynghorydd Jim Evans;
- Cynghorydd R Llewelyn Jones;

[13] Awdurdod gweithredol wedi'i ddirprwyo i ddileu dyledion efo'u gwerth tros £5k: Deilydd Portffolio (Cyllid)/ Swyddog Adran 151.

- Cynghorydd Llinos Medi Huws[14];
- Cynghorydd R Meirion Jones.

**3.2 Aelodaeth – Swyddogion**:

- Richard Micklewright, Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a'r Swyddog Adran 151 Dros Dro;
- Geraint Jones, Rheolydd Gwasanaeth Refeniw a Budd-daliadau;
- Anwen Davies, Rheolydd Sgriwtini Dros Dro.

Mae'n bosibl y bydd gwaith y Panel yn golygu y bydd angen i Aelodau Etholedig eraill (ee o'r Pwyllgor Gwaith) a/neu Swyddogion o feysydd Gwasanaeth eraill (ee Gwasanaeth Tai) fynychu'r Panel.

## 4. CADEIRIO

Yn ei gyfarfod cyntaf, bydd y Panel yn ethol Aelod i gadeirio.

## 5. AMLDER CYFARFODYDD A CHWORWM

5.1 **Amlder Cyfarfodydd** – sefydlwyd y Panel Canlyniad Sgriwtini i gwblhau darn penodol o waith ar ran y rhiant bwyllgor, y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol (cyfeirir at baragraff 2, uchod). I'r perwyl hwnnw, trefnwyd cyfres o 7 cyfarfod (**ATODIAD 1**) a chynhelir hwynt yn fisol;

5.2 **Cworwm** – ni fydd hyn yn berthynasol i'r Paneli Sgriwtini a sefydlwyd gan yr Awdurdod Lleol.

## 6. COFNODION CYFARFODYDD A THREFNIADAU ADRODD

6.1 Bydd yr Uned Sgriwtini'n coladu a dosbarthu papurau wrth baratoi ar gyfer pob cyfarfod a bydd yn darparu cofnod o gyfarfodydd y Panel;

6.2 Bydd yr Uned Sgriwtini'n paratoi adroddiad drafft o waith y Panel – er cymeradwyaeth gan Aelodau Etholedig a Swyddogion yr Awdurdod Lleol.

## 7. AMSERLEN

Bydd ffiniau amser i waith y Panel Sgriwtini ac anelir at baratoi ei adroddiad drafft cyntaf erbyn Ionawr, 2016.

[14] Penderfynodd y Cyng Llinos Medi Huws sefyll i lawr fel aelod o'r Panel a hynny oherwydd pwysau gwaith sylweddol dros y cyfnod nesaf. Wrth ystyried y mater yn ei gyfarfod ar 06/07/15, penderfynodd y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol i beidio ag enwebu Aelod arall i fod ar y Panel.

**ATODIAD 1**

## ATODLEN CYFARFODYDD: PANEL CANLYNIAD SGRIWTIN [RHEOLI DYLEDION]

| CYFARFOD | DYDDIAD | LLEOLIAD | RHAGLEN |
|---|---|---|---|
| **1** | **30/06/15** – 10.30 | Ystafell 1003 | CG a gosod y cyd-destun. |
| **2** | **28/07/15** – 2.30 | Ystafell Bwyllgor 1 | Diffiniad o ddyledwr, pa ddyled sy'n ddyledus gan Wasanaethau a gweithredu gan Wasanaethau unigol. |
| **3** | **06/10/15** – 10.30 | Ystafell 1003 | Codi dyled a beth sy'n digwydd. Sut y derbynnir taliadau. |
| **4** | **03/11/15** – 2.00 | Ystafell Bwyllgor 1 | Gorfodaeth – egwyddorion a dulliau/gweithdrefnau. |
| **5** | **03/12/15** – 10.00 | Ystafell 1003 | Dileu dyledion. |
| **6** | **05/01/16** – 2.00 | Ystafell Bwyllgor 1 | Dogfen Bolisi Gorfforaethol Ddraft: Rheoli Dyledion / cadarnharu casgliadau a chytuno argymhellion. |
| **7** | **18/02/16** – 10.00 | Swyddfa'r Pennaeth Adnoddau | Cytuno cynnwys amlinellol Adroddiad y Panel Canlyniad Sgriwtini. |
| **------------** | **26/02/16** – trwy ebost | ------------------ | Cytuno Adroddiad y Panel Canlyniad Sgriwtini |

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **PWYLLGOR:** | Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol |
| **DYDDIAD:** | 11 Ebrill 2016 |
| **PWNC:** | Cylch Gorchwyl – Panelau Canlyniad Sgriwtini:<br>(1) Diogelu Corfforaethol<br>(2) Gofalwyr Anffurfiol – Gwasanaethau Oedolion<br>(3) Gosod Tai'r Awdurdod Lleol 2016 |
| **AWDUR YR ADRODDIAD:**<br>**Rhif Ffôn:**<br>**E-bost** | Rheolydd Sgriwtini<br>01248 752078<br>bsxce@ynysmon.gov.uk |

**1. PWRPAS**

1.1 Pwrpas yr adroddiad hwn yw rhoi cyfle i'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol gyflwyno sylwadau ar ddogfennau cylch gorchwyl arfaethedig y Panelau Canlyniad Sgriwtini, sef:

1. Diogelu Corfforaethol
2. Gosod Tai'r Awdurdod Lleol
3. Gofalwyr Anffurfiol

1.2 Mae'r rhesymeg dros sefydlu'r Panelau a'r canlyniadau a ddeisyfir ynghlwm ym mhob dogfen Cylch Gorchwyl. Mae pob dogfen wedi cael ei thrafod gyda'r Pennaeth Gwasanaeth perthnasol..

**2. ARGYMHELLIAD**

2.1 Bod y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol yn cyflwyno sylwadau ar ddogfennau cylch gorchwyl arfaethedig y Panelau Canlyniad Sgriwtini ac yn enwebu aelodau i wasanaethu ar bob panel os bydd y pwyllgor yn fodlon symud ymlaen.

**Adroddiad gan:** Bev Symonds (Rheolydd Sgriwtini)
**Dyddiedig:** 26 Chwefror 2016

| ATODIADAU |
|---|
| 1. Panel Canlyniad Sgriwtini – Diogelu Corfforaethol |
| 2. Panel Canlyniad Sgriwtini – Gosod Tai'r Awdurdod Lleol |
| 3. Panel Canlyniad Sgriwtini – Gofalwyr Anffurfiol – Gwasanaethau Oedolion |

**ATODIAD 1**

**PANEL CANLYNIAD SGRIWTINI : DIOGELU CORFFORAETHOL**

Mae'r Cylch Gorchwyl (CG) hwn yn amlinellu'r trefniadau y Panel Canlyniad Sgriwtini sydd newydd gael ei sefydlu ar gyfer materion Diogelu Corfforaethol.

## 1. CEFNDIR / CYD-DESTUN

1.1 Yn ei gyfarfod ar 6 Gorffennaf 2015 rhoddodd y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol sylw i adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Plant yn ei rôl fel y Pennaeth Gwasanaeth sy'n arwain ar faterion Diogelu mewn perthynas ag adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru ar y trefniadau sicrwydd ac atebolrwydd sydd gan yr Awdurdod i sicrhau bod trefniadau diogelu corfforaethol wedi eu sefydlu a'u bod yn gweithio'n effeithiol.

1.2 Rhoddwyd adroddiad llawn Swyddfa Archwilio Cymru i'r Pwyllgor, ynghyd â chynllun gweithredu i fynd i'r afael ag argymhelliad SAC ynghylch trefniadau sicrwydd ac atebolrwydd i sicrhau bod trefniadau corfforaethol priodol ar gyfer diogelu wedi eu sefydlu ac yn gweithio'n effeithiol. Tynnodd y Rheolwr Gwasanaeth (Diogelu a Sicrhau Ansawdd) sylw'r Pwyllgor at nifer o bwyntiau allweddol

- Bod nifer o'r argymhellion a nodwyd yn adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru wedi cael eu rhoi ar waith yn barod;
- Bod Polisi Diogelu wedi ei fabwysiadu a bod Bwrdd Diogelu Corfforaethol wedi ei sefydlu;
- Er bod adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru yn cydnabod bod yr Awdurdod wedi sefydlu nifer o brosesau a threfniadau mae hefyd wedi nodi meysydd allweddol y dylid rhoi sylw iddynt.

1.3 Yn ystod ei drafodaethau penderfynodd y Pwyllgor Sgriwtini fel a ganlyn -

- Argymell bod y camau gwella a nodwyd yn yr adroddiad Gwasanaethau Plant yn debygol o alluogi'r Awdurdod Lleol i gydymffurfio â'r argymhellion a wnaed gan Swyddfa Archwilio Cymru
- Cytunwyd i fonitro cydymffurfiaeth â'r gofynion ac i ddal Cyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol yn atebol am eu cwblhau drwy sefydlu Panel Sgriwtini ar adeg briodol.

## 2. RÔL, PWRPAS A CHWMPAS

Bydd y Panel yn cynnal archwiliad manylach trylwyr o:

i Polisi cyfredol y Cyngor ar gyfer Diogelu Plant a Phobl Fregus er mwyn sicrhau bod y Polisi yn galluogi'r Awdurdod i gyflawni ei ofynion statudol a gwneud penderfyniadau lleol yn effeithiol ac yn effeithlon.

ii Cynnal adolygiad llawn o Adolygiad Swyddfa Archwilio Cymru o drefniadau sicrwydd ac atebolrwydd yr Awdurdod – defnyddir hyn fel y data sylfaenol ar gyfer Monitro Cydymffurfiaeth gyda'r gofyn i allu dal y [1]Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol yn atebol.

Iii Adolygu Cynllun Gweithredu'r Cyngor, er mwyn sicrhau y gellir mynd i'r afael â'r holl feysydd a amlinellwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru fel rhai sydd angen sylw, er enghraifft -

- Bod yr holl gamau gweithredu yn y Cynllun Gweithredu yn cael eu cwblhau ar amser
- Bod tystiolaeth bod mwy o berchnogaeth o'r rhaglen ddiogelu ar draws y sefydliad
- Dod o hyd i dystiolaeth i sicrhau bod swyddogaeth ddiogelu'r Awdurdod Lleol wedi ei gwreiddio yn fframweithiau cynlluniau busnes, rheoli risg a rheoli perfformiad y sefydliad
- Ystyried a ddylid / sut i sicrhau sgriwtini ffurfiol a rheolaidd ar gyfer materion diogelu; a ddylai fod yn flaenoriaeth ochr yn ochr â chadarnhad o'r gwaith archwilio mewnol rheolaidd a wneir ar faterion diogelu?
- Bod proses lle mae'r holl Benaethiaid Gwasanaeth wedi nodi a llunio blaenoriaethau diogelu erbyn 2015-16 i'w cynnwys o fewn eu cynlluniau darparu gwasanaeth, a fydd wedyn yn cael eu monitro drwy'r cerdyn sgorio ar gyfer materion diogelu
- A oes angen cyflwyno adroddiad ar Ddiogelu Corfforaethol i'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol a'r Bwrdd Rhanbarthol Diogelu Plant ac Oedolion bob blwyddyn
- Adolygu cynnydd gyda'r rhaglen hyfforddi ar faterion Diogelu – pa bryd y mae angen ei chwblhau a'i rhoi ar waith ar draws y Cyngor? Oes angen rhoi sylw penodol i godi ymwybyddiaeth o faterion diogelu mewn perthynas ag oedolion a phlant, gan gyfeirio'n benodol at fasnachu plant, plant yn cael eu hecsbloetio'n rhywiol, camdriniaeth yn y cartref a chaethwasiaeth fodern, o fewn diogelu corfforaethol?
- Mewn perthynas â nifer o bolisïau allweddol, fel y rhestrir nhw yn y Cynllun Gweithredu ar gyfer y Polisi Diogelu, beth sydd wedi cael ei adolygu a'i ddiweddaru? Pam nad yw'r materion a ganlyn wedi cael eu hadolygu – y polisi gwirfoddoli, y polisi disgyblu a'r canllawiau ar y defnydd o ataliaeth ac amser.

CANLYNIADAU A DDYMUNIR

➢ Sicrhau bod dealltwriaeth gorfforaethol o'r Polisi Diogelu Plant a Phobl Fregus a'i fod wedi gwreiddio'n iawn. Bod yr Awdurdod Lleol yn gallu cael sicrwydd bod y Polisi'n golygu ei fod yn gallu cyflawni ei ddyletswyddau diogelu, gan gynnwys adrodd yn rheolaidd o fewn y sefydliad a sgriwtini effeithiol

➢ Ystyried ac awgrymu dull priodol er mwyn cyflwyno adroddiadau rheolaidd ar y polisi

➢ Sgriwtineiddio'r Cynllun Diogelu Corfforaethol Drafft (cyn iddo gael ei ystyried gan y Pwyllgor Gwaith am benderfyniad)

- Dod i farn: os oes angen brys i wella ymwybyddiaeth gorfforaethol o faterion diogelu ymhlith y staff ar draws y Cyngor a darparu hyfforddiant pellach, ystyried gwahodd Cydlynwyr Caethwasiaeth Fodern Heddlu Gogledd Cymru i roi cyflwyniad i'r Cyngor Sir
- Yn wyneb achosion cam-drin oedolion mewn Unedau Iechyd Meddwl sydd wedi cael cyhoeddusrwydd mawr yn ddiweddar, cadarnhad bod Gweithwyr Cymdeithasol Ynys Môn sy'n ymwneud â chyfeiriadau iechyd meddwl, [3]yn cael eu hyfforddi a bod ganddynt y sgiliau priodol i adnabod yr arwyddion o gamdriniaeth a bod Rheolwyr Gwasanaethau Oedolion yn sicrhau bod Gweithwyr Cymdeithasol yn cadw llygad ar y materion hyn unwaith y byddant wedi cael yr hyfforddiant
- Dod i farn ynghylch yr awgrym hwn: [3]sef sefydlu system adborth priodol rhwng athrawon ysgol a'r Gwasanaethau Cymdeithasol
- Argymell bod proses i'r holl Benaethiaid Gwasanaeth nodi a llunio blaenoriaethau diogelu erbyn 2015-16 i'w cynnwys yn eu cynlluniau darparu gwasanaeth, a fydd wedyn yn cael eu monitro'n barhaus drwy gerdyn sgorio pwrpasol
- Sicrhau y ceir cadarnhad bod gwaith archwilio mewnol rheolaidd yn cael ei wneud ar faterion diogelu

## 3. AELODAETH

Bydd aelodaeth graidd y panel yn cynnwys:

3.1 Aelodaeth – Aelodau Etholedig

- Y Cynghorydd R. Meirion Jones neu'r Is-gadeirydd (Y Cynghorydd G O Jones)
- Y Cynghorydd
- Y Cynghorydd
- Y Cynghorydd

3.2 Aelodaeth – Swyddogion

- Pennaeth Gwasanaethau Plant – Anwen M. Hughes
- Rheolwr Gwasanaeth (Diogelu a Sicrhau Ansawdd) – Gareth Llwyd
- Rheolwr Sgriwtini – B A Symonds

Efallai y bydd angen presenoldeb Aelodau Etholedig eraill (e.e. y Pwyllgor Gwaith) a / neu Swyddogion o feysydd gwasanaeth eraill hefyd i ymdrin â gwaith y panel.

## 4. CADEIRIO

Mae cynsail Sgriwtini yn golygu mai Cadeirydd neu Is-gadeirydd y Rhiant-Bwyllgor Sgriwtini fydd yn cadeirio eu Panelau Canlyniad Sgriwtini.

## 5. AMLDER CYFARFODYDD A CHWORWM

5.1 **Amlder y cyfarfodydd** – Sefydlwyd y Panel Canlyniad Sgriwtini i ymgymryd â darn penodol o waith ar ran ei riant-bwyllgor, sef y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol (y cyfeirir ato ym mharagraff 1, uchod.) I'r perwyl hwn rhagwelir cyfanswm o 3-4 o gyfarfodydd dros y 4 mis nesaf i'w cynnal bob mis..

5.2 **Cworwm** – ni fydd hyn yn berthnasol i Banelau Sgriwtini a sefydlwyd gan yr Awdurdod Lleol.

## 6. COFNOD O'R CYFARFODYDD A'R TREFNIADAU ADRODD

6.1 Bydd yr Uned Sgriwtini yn casglu ac yn dosbarthu papurau i baratoi at bob cyfarfod ac yn darparu cofnod o bob un o gyfarfodydd y panel;

6.2 Bydd adroddiad drafft ar waith y panel yn cael ei baratoi gan yr Uned Sgriwtini – i'w gadarnhau gan yr Aelodau Etholedig a Swyddogion yr Awdurdod Lleol

## 7. AMSERLEN

Bydd cyfyngiad amser ar waith y Panel Sgriwtini a bydd yn anelu at baratoi ei Adroddiad Terfynol ar gyfer y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol ym mis Mai 2016.

Rheolwr Sgriwtini
15.12.15 - Fersiwn 1
4 Ion 16 - V2
7 Ionawr '16 -V3

1. Rhagfyr 15. Nid oes gan CSYM Gyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol. Bydd angen dal i gyfrif pwy bynnag a benodir i'r Swydd Statudol.

2. Ffactorau Gwleidyddol, Amgylcheddol, Ariannol a Thechnolegol. 3. Cofnod o'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol 6.7.15

# ATODIAD 1

## AMSERLEN CYFARFODYDD: PANEL CANLYNIAD SGRIWTINI – DIOGELU CORFFORAETHOL

| CYFARFOD | DYDDIAD | LLEOLIAD (e.e.)* | RHAGLEN |
|---|---|---|---|
| **1.** | 4.1.16 | Ystafell y Pennaeth Gwasanaethau Plant | Cyfarfu'r Rheolwr Sgriwtini gyda'r Pennaeth Gwasanaeth i drafod y ddogfen sgopio ddrafft ar gyfer yr adolygiad ac i dderbyn adborth ar y ddogfen a'i chymeradwyo |
| **2.** | Chwefror | *Ystafell Gynhadledd –Adran Eiddo* | Panel i gyfarfod gyda'r Pennaeth Gwasanaeth Plant a'r Rheolwr (Diogelu a Sicrhau Ansawdd) i drafod cyd-destun y Cofnod dyddiedig 6 Gorffennaf.<br>• Gosod y cyd-destun ac amlygu'r gwahaniaeth rhwng Diogelu Plant a Diogelu Corfforaethol a'r Polisi / Polisïau cysylltiedig<br>• Darparu cynllun gweithredu cyfredol o gymharu â hwnnw a rannwyd gyda'r PSC ar 6.7.15, i gynllunio meysydd i'r Panel ganolbwyntio arnynt yn ei gyfarfod nesaf. |
| **3.** | Mawrth | *Ystafell Gyfarfod – Adran Cynllunio* | Y Panel i gyfarfod eto gyda'r Rheolwr (Diogelu a Sicrhau Ansawdd) er mwyn<br>• Ystyried y cynnydd gyda'r cynllun gweithredu ac asesu'r cyfraniad corfforaethol i'r broses hyd yn hyn.<br>• Cymryd cyngor gan Swyddogion ynghylch unrhyw fathau eraill o dystiolaeth i'r Panel ei hadolygu yn ei gyfarfod nesaf. |
| **4.** | Ebrill | *Ystafell 1003* | Ystyried tystiolaeth / adroddiadau / cynlluniau gweithredu pellach ar Ddiogelu Corfforaethol a / neu sesiynau Holi ac Ateb gyda swyddogion a awgrymir (e.e. y Rheolwr Trawsnewid Corfforaethol, Rheolwr Perfformiad ac ati) |
| **5.** | Ebrill | *Ystafell Bwyllgor 1* | Panel i weithredu ffactorau PEST [2] a dechrau dadansoddi'r dystiolaeth a adolygwyd hyd yn hyn. Er mwyn dechrau drafftio ei adroddiad a fydd yn cynnwys casgliadau ac argymhellion a fydd yn seiliedig ar dystiolaeth. |
| **6.** | Mai | *Ystafell Gynadleddau – Adran Eiddo* | Adolygu'r adroddiad drafft ar gyfer ei gymeradwyo a derbyn sylwadau gan y Pennaeth Gwasanaeth. **Nod:** ar gyfer y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol ym mis Mai 2016 |

** Enghreifftiau o leoliadau yw'r rhain. Nid oes dim wedi cael ei gytuno eto hyd nes bod y cyfarfodydd wedi cael eu cynnal gyda'r Penaethiaid Gwasanaeth perthnasol a fydd yn cynorthwyo i sgopio a chytuno ar ddyddiadau i gyfarfod â'r Panelau Sgriwtini.*

1. Rhagfyr 15. Nid oes gan CSYM Gyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol. Bydd angen i Sgriwtini ddal i gyfrif pwy bynnag a benodir i'r swydd .2. Ffactorau PEST = Gwleidyddol, Amgylcheddol, Ariannol a Thechnolegol. 3. Cofnod Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol 6.7.15

**ATODIAD 2**

**PANEL CANLYNIAD SGRIWTINI: GOSOD TAI'R AWDURDOD LLEOL**

Mae'r Cylch Gorchwyl (CG) hwn yn nodi trefniadau y Panel Canlyniad Sgriwtini sydd newydd gael ei sefydlu: Gosod Tai'r Awdurdod Lleol.

## 1. CEFNDIR / CYD-DESTUN

1.1 Yn y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol a gynhaliwyd ar 17 Medi 2015, ystyriwyd adroddiad gan y Pennaeth Trawsnewid Dros Dro ar Fonitro Perfformiad – Cerdyn Sgorio Chwarter 1, 2015-16. Yn ystod ei drafodaethau, nododd y Pwyllgor Sgriwtini fod un DP/SCA yn tanberfformio.

1.2 Penderfynwyd fel a ganlyn:

- Nododd y Pwyllgor y byddai sefydlu Panel Canlyniad Sgriwtini i drafod Gosod Tai yn ychwanegu gwerthu – gan rodi sylw arbennig i'r ffactorau sy'n cael effaith ar broses gosod tai yr Awdurdod Lleol.

## 2. RÔL, PWRPAS A SGÔP

Bydd rôl y Pwyllgor Canlyniad Sgriwtini'n cynnwys edrych ymhellach ar:

- Drefniadau cyfredol yr Awdurdod ar gyfer gosod unedau tai, deall natur y maes gwasanaeth y mae wnelo'r Dangosydd Perfformiad (DP23) ag ef: 'Nifer cyfartalog y dyddiau calendr a gymerwyd i osod unedau llety sy'n rhai y mae modd eu gosod (ac eithrio eiddo anodd i'w gosod)' sydd, ar hyn o bryd yn goch ar gerdyn sgorio perfformiad y Cyngor a hynny am ddau chwarter yn olynol
- Adolygu'r camau lliniaru a ddarparwyd gan y Pennaeth Gwasanaeth i wella perfformiad gwael DP23
- Adolygu'r rhesymeg y tu ôl i'r targed a osodwyd a thrafod targed posibl ar gyfer y dyfodol
- Ystyried unrhyw ddatblygiadau yn y Gwasanaeth sy'n gysylltiedig â Gosod Tai/Eiddo Gwag, e.e. ailstrwythuro, gwaith grŵp aelodau/swyddogion ac ati ynghylch gosod tai.

CANLYNIADAU A DDEISYFIR:

- Posibilrwydd o adolygu'r Drefn Gosod Tai, yn enwedig eiddo gwag
- Gwneud penderfyniad cyn cyflwyno'r eitem i'r Pwyllgor Gwaith mewn perthynas ag unrhyw weithdrefn neu bolisi sy'n ymwneud â gosod tai cyngor;
- Os bydd polisi drafft newydd ar gyfer Gosod Tai Cyngor yn cael ei gymeradwyo gan y Pwyllgor Gwaith, bod y nodyn briffio yn cael ei ddiweddaru ar gyfer Aelodau ac Uwch Swyddogion (cafodd y nodyn briffio diwethaf i Aelodau Etholedig ar Osod Tai Cynghorau Lleol ei gylchredeg yn 2013 – cafodd ei ddrafftio ar y cyd gan y Pennaeth Tai a'r Rheolydd Sgriwtini).

## 3. CADEIRIO

3.1 Yn ôl cynseiliau Sgriwtini, gorau oll petai Cadeirydd neu Is-Gadeirydd y rhiant Bwyllgor Sgriwtini'n cadeirio eu Panelau Canlyniad Sgriwtini, gyda 2-5 o aelodau eraill o'r Pwyllgor sydd wedi gwirfoddoli i wasanaethu arno.

## 4. AELODAETH

Bydd aelodau craidd y panel yn cynnwys:

4.1 **Aelodau'r PCS – Aelodau Etholedig**:

- Y Cynghorydd R. Meirion Jones (Cadeirydd)
- Y Cynghorydd G O Jones (Is-gadeirydd) y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol
- Y Cynghorydd
- Y Cynghorydd
- Y Cynghorydd

4.2 **Aelodau – Swyddogion**:

- Pennaeth Tai, Shan Lloyd Williams
- Rheolydd Opsiynau Tai, Alwena Pawson
- Rheolwr Trawsnewid, Ian Ryder
- Bev Symonds, Rheolydd Sgriwtini
- Oherwydd gwaith y panel, mae'n bosib y bydd angen i Aelodau Etholedig fynychu (e.e. aelodau'r Pwyllgor Gwaith ac/neu Swyddogion meysydd Gwasanaeth eraill)

## 5. AMLDER CYFARFODYDD A CHWORWM

5.1 **Amlder cyfarfodydd –** mae'r Panel Canlyniad Sgriwtini wedi cael ei sefydlu i wneud darn penodol o waith ar ran ei Riant Bwyllgor, sef y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol (cyfeiriwch at baragraff 1 uchod). I'r perwyl hwnnw, rhagwelir y bydd 5 o gyfarfodydd yn cael eu trefnu dros y 2-3 mis nesaf, i'w cynnal yn fisol;

5.2 **Cworwm** - ni fydd yn berthnasol i'r Panelau Sgriwtini y mae'r Awdurdod Lleol yn eu sefydlu.

## 6. COFNOD O GYFARFODYDD A THREFNIADAU ADRODD

6.1 Bydd yr Uned Sgriwtini'n coladu ac yn cylchredeg y papurau yn barod ar gyfer bob cyfarfod ac yn paratoi cofnod o gyfarfodydd y Panel.

6.2 Bydd adroddiad drafft ar waith y Panel yn cael ei baratoi gan yr Uned Sgriwtini ar gyfer ei gymeradwyo gan Aelodau Etholedig a Swyddogion yr Awdurdod Lleol.

## 7. AMSERLEN

Bydd amserlen i waith y Pwyllgor Sgriwtini a bydd yn anelu at baratoi ei adroddiad terfynol ym mis Mawrth 2016 ar gyfer ei gyflwyno i'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol ym mis Ebrill.

Rheolydd Sgriwtini
Rhagfyr 2015. F1
Ionawr 2016. F2.

**ATODIAD 2**

**ATODLEN CYFARFODYDD: PANEL CANLYNIAD SGRIWTINI *GOSOD TAI'R AWDURDOD LLEOL***

| CYFARFOD | DYDDIAD | LLEOLIAD (e.e.)* | AGENDA |
|---|---|---|---|
| **1.** | 6.1.16 | Ystafell Pennaeth y Gwasanaethau Tai | Y Rheolydd Sgriwtini'n cyfarfod gyda Pennaeth Gwasanaeth i drafod sgôp yr adolygiad ac i gael ei gymeradwyo. |
| **2.** | Feb- i'w drefnu | *Ystafell Gyfarfod Eiddo / Property Conference Room* – i'w drefnu | Aelodau'r Panel yn cyfarfod gyda'r Pennaeth Gwasanaeth, y Swyddog Opsiynau Tai a'r Rheolwr Trawsnewid Tai i:<br>• Osod y cyd-destun/amgylchiadau eithriadol mewn perthynas â Dangosydd Perfformiad PI23,<br>• Cymharu yn erbyn awdurdodau eraill yn nheulu ALl Cymru. |
| **3.** | Feb – i'w drefnu | *Ystafell Gyfarfod Cynllunio / Planning Meeting Room* – i'w drefnu | Aelodau'r Panel yn cyfarfod gyda'r Pennaeth Gwasanaeth, y Swyddog Opsiynau Tai a'r Rheolwr Trawsnewid Tai i ystyried a dadansoddi:<br>• Y broses gosod tai, tai gwag o a – y gyda golwg ar awgrymu newidiadau, a<br>• Gosod y targed |
| **4.** | March – i'w drefnu | *Ystafell 1003/Rm 1003* – i'w drefnu | Panel yn cyfarfod i ddrafftio adroddiad ar gyfer y Pwyllgor. |
| **5.** | March – i'w drefnu | *Ystafell Bwyllgor 1 / Committee Room 1* - i'w drefnu | Y Panel i gymeradwyo'r adroddiad a mofyn sylwadau'r Pennaeth Gwasanaeth.<br>**Anelu at adrodd i –** Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol mis Ebrill (ei gysylltu i mewn i ddarn arall o waith gan yr Adran Tai ynghylch Gosod Tai, Pwyllgor Gwaith Ebrill, '16) |

* Enghreifftiau o leoliadau yw'r rhain. Nid oes dim wedi cael ei gytuno eto hyd nes bod y cyfarfodydd wedi cael eu cynnal gyda'r Penaethiaid Gwasanaeth perthnasol a fydd yn cynorthwyo i sgopio a chytuno ar ddyddiadau i gyfarfod â'r Panelau Sgriwtini, yr UDA a'r Fforwm Cynghorau Tref a Chymuned.

ATODIAD 3

**PANEL CANLYNIAD: GOFALWYR ANFFURFIOL**

Mae'r ddogfen Cylch Gorchwyl hon (CG) yn amlinellu'r trefniadau y Panel Canlyniad Sgriwtini sydd newydd ei sefydlu ynghylch Gofalwyr Anffurfiol yn y Gwasanaethau Oedolion.

## 1. CEFNDIR / CYD-DESTUN

1.1 Yn ei gyfarfod ar 17 Medi 2015 rhoddodd y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol sylw i adroddiad gan y Pennaeth Trawsnewid ar y Cerdyn Sgorio Corfforaethol ar gyfer Chwarter 1, 2015-16. Dadansoddodd y Pwyllgor y Dangosydd Perfformiad (DP) LI/18B a oedd yn dangos tanberfformiad. Nododd y Pwyllgor:

- Bod y Dangosydd Perfformiad o ran 'y ganran o ofalwyr oedolion a oedd wedi gofyn am asesiad neu adolygiad ac a gafodd y fath asesiad neu adolygiad yn ystod y flwyddyn' yn parhau i ddangos yn goch ers sawl chwarter yn olynol. Eglurodd Rheolwr y Rhaglen Gorfforaethol fod y tanberfformiad yn y chwarter wedi digwydd o ganlyniad i brinder staff, gyda 50% o'r tîm gofalwyr yn absennol o'r gwaith oherwydd salwch am chwe wythnos yn ystod y chwarter cyntaf. Nododd y Cadeirydd bod hwn yn faes arall lle roedd y Pwyllgor yn bwriadu sefydlu Panel Canlyniad Sgriwtini er mwyn ymchwilio'n fanylach i'r rhesymau am y tanberfformio a'r absenoldeb salwch. Nid yw'r panel yn gyfarfod cyhoeddus, a thrwy hynny byddai'n fforwm gwell i ystyried gwybodaeth sensitif i'w ddadansoddi, ac yna gellid adrodd yn ôl i'r prif bwyllgor ar unrhyw ganfyddiadau strategol y dylid eu hystyried.
- Aelodaeth y panel i gynnwys – naill ai y Cynghorydd R. Meirion Jones (Cadeirydd) neu'r Cynghorydd G. O Jones (Is-gadeirydd, Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol) a thri Aelod arall o'r prif bwyllgor.

## 2. RÔL, PWRPAS A CHWMPAS

Bydd y Panel Canlyniad Sgriwtini yn archwilio ymhellach i:-

- Y Polisi a'r Gweithdrefnau ar gyfer Gofalwyr Anffurfiol i Oedolion
- Lefelau staffio yn y tîm Gofalwyr a'r mathau o ddyletswyddau y mae angen eu cynnwys mewn disgrifiad swydd i Ofalwyr
- Adolygiad – y mesurau lliniaru a ddarparwyd gan y Pennaeth Gwasanaethau Oedolion ar gyfer gwella'r perfformiad gwael dan Ddangosydd Perfformiad LI/18B.

**ATODIAD 3**

Y CANLYNIADAU A DDYMUNIR

- Deall natur yr asesiadau a wneir a'r lefelau gwaith sy'n gysylltiedig â'r dangosydd perfformiad hwn
- Eglurder ynghylch natur y gefnogaeth a ddarperir i ofalwyr a sut mae perfformiad yn erbyn y dangosydd hwn yn berthnasol i brofiad gwirioneddol gofalwyr o'r cymorth a roddir iddynt
- Cadarnhau sut y gall gofalwyr gael gafael ar gymorth yn y cyfnodau rhwng adolygiadau a drefnwyd
- Cynnal proses gyda chyfyngiad amser penodol ar gyfer monitro'r DP hwn
- Ystyried yr opsiynau i gynyddu'r capasiti o fewn y Gwasanaeth

## 3. AELODAETH

Bydd aelodaeth graidd y panel yn cynnwys:

3.1 Aelodaeth – Aelodau Etholedig:

- Y Cynghorydd R. Meirion Jones (Cadeirydd) neu'r Cynghorydd G. O. Jones (Is-gadeirydd) a 3 aelod etholedig arall sy'n gwasanaethu ar y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol.
  - Swyddogion – Pennaeth Gofal Cymdeithasol i Oedolion [1]Alwyn Rhys Jones
  - Rheolwr Sgriwtini, Bev Symonds

Efallai y bydd angen i Aelodau Etholedig eraill fynychu'r Panel oherwydd natur y gwaith (e.e. o'r Pwyllgor Gwaith) a / neu Swyddogion o feysydd Gwasanaethau eraill.

## 4 CADEIRIO

Mae cynsail Sgriwtini yn golygu mai Cadeirydd neu Is-gadeirydd y Rhiant-Bwyllgor Sgriwtini perthnasol fydd yn cadeirio eu Panelau Canlyniad Sgriwtini.

## 5 AMLDER CYFARFODYDD A CHWORWM

5.1 **Amlder y cyfarfodydd** – Sefydlwyd y Panel Canlyniad Sgriwtini i ymgymryd â darn penodol o waith ar ran ei riant-bwyllgor, sef y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol (y cyfeirir ato ym mharagraff 1, uchod.) I'r perwyl hwn rhagwelir cyfanswm o 2-3 o gyfarfodydd dros y 3 mis nesaf i'w cynnal bob mis.

5.2 **Cworwm** – ni fydd hyn yn berthnasol i Banelau Sgriwtini a sefydlwyd gan yr Awdurdod Lleol.

## 6 COFNOD O'R CYFARFODYDD A'R TREFNIADAU ADRODD

6.1 Bydd yr Uned Sgriwtini yn casglu ac yn dosbarthu papurau i baratoi at bob cyfarfod ac yn darparu cofnod o bob un o gyfarfodydd y panel;

6.2 Bydd adroddiad drafft ar waith y panel yn cael ei baratoi gan yr Uned Sgriwtini – i'w gadarnhau gan yr Aelodau Etholedig a Swyddogion yr Awdurdod Lleol

- **AMSERLEN**

Bydd cyfyngiad amser ar waith y Panel Sgriwtini a bydd yn anelu at baratoi ei Adroddiad Terfynol ar gyfer Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol Mawrth – Ebrill 2016.

Rheolwr Sgriwtini
Ionawr 2016

1. Bydd Pennaeth y Gwasanaeth yn awgrymu pa swyddogion proffesiynol priodol eraill ddylai fynychu'r Panel.

**ATODIAD 3**

**ATODIAD 1**

***AMSERLEN Y CYFARFODYDD: PANEL CANLYNIAD SGRIWTINI – GOFALWYR ANFFURFIOL (yn benodol Dangosydd Perfformiad SCA 18b).***

| CYFARFOD | DYDDIAD | LLEOLIAD (e.e.)* | RHAGLEN |
|---|---|---|---|
| **1.** | 5.1.16 | *Ystafell y Pennaeth Gwasanaethau Oedolion* | Rheolwr Sgriwtini i gyfarfod y Pennaeth Gwasanaeth i drafod y sgôp drafft a chael cymeradwyaeth |
| **2.** | Ion – Chwefror - i'w gadarnhau | ** Ystafell BWYLLGOR 1 – i'w gadarnhau* | Aelodau'r Panel i gwrdd â'r Pennaeth Gwasanaethau Oedolion a'i swyddogion perthnasol[1] i amlinellu:-<br>• Natur y gwasanaeth a'r capasiti staffio<br>• Cyd-destun / amgylchiadau lliniarol mewn perthynas â'r Dangosydd Perfformiad SCA18b yn benodol, ond hefyd ystyried SCA 18a a 18c o fewn yr un teulu o ddangosyddion perfformiad<br>• Cymharu a chyferbynnu gydag awdurdodau eraill yng Nghymru.<br>• Awgrym ar gyfer gwella |
| **3.** | Chwefror – i'w gadarnhau | *Ystafell Gynadledda yn yr Adran Eiddo – i'w gadarnhau* | Panel i gyfarfod i ddadansoddi tystiolaeth hyd yma, ystyried llwybrau pellach a / neu symud i benderfynu ar gasgliadau ac argymhelliad i ddechrau drafftio ei adroddiad. |
| **4.** | Mawrth – i'w gadarnhau | *Ystafell Gyfarfod yn yr Adran Gynllunio – i'w gadarnhau* | Panel yn cyfarfod i gymeradwyo'r adroddiad a gwahodd sylwadau gan y Pennaeth Gwasanaeth.<br>Anelu i adrodd i'r Pwyllgor Sgriwtini ym mis Mawrth 2016. |

* Enghreifftiau o leoliadau yw'r rhain. Nid oes dim wedi cael ei gytuno eto hyd nes bod y cyfarfodydd wedi cael eu cynnal gyda'r Penaethiaid Gwasanaeth perthnasol a fydd yn cynorthwyo i sgopio a chytuno ar ddyddiadau i gyfarfod â'r Panelau Sgriwtini, yr UDA a'r Fforwm Cynghorau Tref a Chymuned.

1. Bydd y Pennaeth Gwasanaeth yn gwneud awgrymiadau ynghylch pa swyddogion proffesiynol priodol eraill ddylai fynychu'r Panel.

This page is intentionally left blank